# Llawlyfr ar gyfer Arolygwyr Uwchraddedigion Ymchwil

**2023**

# Llawlyfr ar gyfer
# Arolygwyr Uwchraddedigion Ymchwil

**Gall arolygu myfyrwyr ymchwil fod ymhlith y tasgau sy'n rhoi'r boddhad mwyaf i'r ysgolhaig. Mae hyfforddi'r genhedlaeth nesaf o ymchwilwyr ymhlith ein cyfrifoldebau mwyaf cyffrous a phwysig. Ond mae arolygu myfyrwyr ymchwil hefyd yn cynnig ei heriau ei hun a nod y llawlyfr hwn yw arfogi staff academaidd â'r modd i lywio drwy weithdrefnau gweinyddol, ymgysylltu â gofynion Sicrhau Ansawdd a hyrwyddo arferion gorau. Mae'n cynnwys gwybodaeth bwysig i arolygwyr a chynrychiolwyr adrannol ynglŷn â gweithdrefnau a'u cyfrifoldebau.**

**Bydd y llawlyfr hwn yn cael ei ddiwygio'n fwy trylwyr yn 2024 i ystyried y feddalwedd rheoli Ymchwil Uwchraddedig newydd sy'n cael ei gyflwyno ar hyn o bryd ac a fydd yn cyflwyno systemau ar-lein a llif gwaith newydd ar gyfer tasgau megis monitro, arholi ac estyniadau ar gyfer Ymchwil Uwchraddedig. Bydd hefyd yn cael ei gysylltu â'r hyfforddiant i arolygwyr a gyflwynir i alluogi achrediad o Gyngor y DU dros Addysg i Raddedigion.**

**Mae'r ddogfen hon ar gael ar y we:**
**http://www.aber.ac.uk/cy/grad-school/docs-handbooks/**

**Noder:**

Roedd y ddogfen hon yn gywir wrth iddi fynd i'r wasg. Fodd bynnag, bydd gweithdrefnau a rheoliadau'n cael eu diweddaru'n achlysurol. Os nad ydych yn siŵr, cysylltwch ag Ysgol y Graddedigion.

# 1. Cynnwys

**2. GWYBODAETH DDEFNYDDIOL** .............Error! Bookmark not defined.
- 2.1 CYFLWYNIAD .................**Error! Bookmark not defined.**
- 2.2 YSGOL Y GRADDEDIGION .......... **Error! Bookmark not defined.**
- 2.3 CYSYLLTIADAU DEFNYDDIOL .... **Error! Bookmark not defined.**

**3. COFRESTRU AC YMSEFYDLU MYFYRWYR ......** Error! Bookmark not defined.
- 3.1 COFRESTRU .................**Error! Bookmark not defined.**
- 3.2 YMSEFYDLU ..................**Error! Bookmark not defined.**

**4. AMGYLCHEDD A CHYFLEUSTERAU YMCHWIL** Error! Bookmark not defined.
- 4.1 SICRHAU AMGYLCHEDD YMCHWIL PRIODOL ...**Error! Bookmark not defined.**
- 4.2 LLAWLYFRAU ADRANNOL*......... **Error! Bookmark not defined.**
- 4.3 CYFOETHOGI'R AMGYLCHEDD YMCHWIL .........**Error! Bookmark not defined.**
- 4.4 UNIONDEB A MOESEG YMCHWIL .... **Error! Bookmark not defined.**
- 4.5 AWDURAETH .............**Error! Bookmark not defined.**
- 4.6 AMGYLCHEDD IECHYD A DIOGELWCH .............**Error! Bookmark not defined.**
- 4.7 ANABLEDDAU ................**Error! Bookmark not defined.**

**5. AROLYGU................................................**Error! Bookmark not defined.
- 5.1 Y TÎM AROLYGU ............**Error! Bookmark not defined.**
- 5.2 CYMWYSTERAU AROLYGWYR .. **Error! Bookmark not defined.**
- 5.3 CYFRIFOLDEBAU'R PRIF AROLYGWR................**Error! Bookmark not defined.**
- 5.4 CYFRIFOLDEBAU'R AIL AROLYGWR **Error! Bookmark not defined.**
- 5.5 ABSENOLDEB AROLYGWR AC ABSENOLDEB YMCHWIL....................**Error! Bookmark not defined.**
- 5.6 NEWID AROLYGWR.......**Error! Bookmark not defined.**
- 5.7 AROLYGWYR ALLANOL **Error! Bookmark not defined.**
- 5.8 Y LLWYTH AROLYGU ....**Error! Bookmark not defined.**
- 5.9 CYFRIFOLDEBAU'R MYFYRWYR YMCHWIL .......**Error! Bookmark not defined.**
- 5.10 MYFYRWYR RHYNGWLADOL GYDA FISAS MYFYRWYR (HAEN 4 YN FLAENOROL)...........**Error! Bookmark not defined.**

**6. HYFFORDDI AROLYGWYR, AC ARWEINIAD I ARHOLWYR.....**Error! Bookmark not defined.
- 6.1 HYFFORDDI AROLYGWYR.......... **Error! Bookmark not defined.**
- 6.2 ARHOLI...........................**Error! Bookmark not defined.**

**7. MONITRO CYNNYDD AC ASESU'N FFURFIOL ..** Error! Bookmark not defined.
- 7.1 Y GOFYNION CYFFREDINOL WRTH FONITRO CYNNYDD ...................**Error! Bookmark not defined.**
- 7.2 GOFYNION YR AROLYGWR........ **Error! Bookmark not defined.**
- 7.3 GOFYNION Y CYFADRANNAU .... **Error! Bookmark not defined.**
- 7.4 HYSBYSU'R MYFYRIWR O'R ARGYMHELLIAD YNGHYLCH CYNNYDD ............ **Error! Bookmark not defined.**
- 7.5 ISAFSWM AC UCHAFSWM YMGEISYDDIAETHAU ....................................**Error! Bookmark not defined.**
- 7.6 NEWIDIADAU MEWN YMGEISYDDIAETH ........**Error! Bookmark not defined.**
- 7.7 CYFLWYNO AC ARHOLI'R TRAETHAWD YMCHWIL ....................................**Error! Bookmark not defined.**
- 7.8 Y TRAETHAWD YMCHWIL........... **Error! Bookmark not defined.**

**8. APELIADAU, CWYNION AC YMDDYGIAD ACADEMAIDD ANNERBYNIOL ..............** Error! Bookmark not defined.
- 8.1 APELIADAU..... **Error! Bookmark not defined.**
- 8.2 CWYNION. **Error! Bookmark not defined.**
- 8.3 YMDDYGIAD ACADEMAIDD ANNERBYNIOL (Gweler uchod hefyd) .... **Error! Bookmark not defined.**

**9. MONITRO ANSAWDD A SAFONAU .......** Error! Bookmark not defined.
- 9.1 STRWYTHURAU SICRHAU ANSAWDD ... **Error! Bookmark not defined.**
- 9.2 Y GWEITHGAREDDAU SICRHAU ANSAWDD PENODOL A GYFLAWNIR GAN Y PWYLLGOR GRADDAU YMCHWIL .... **Error! Bookmark not defined.**

**10. Atodiad 1 .............** Error! Bookmark not defined.

**11. Atodiad 2 .............** Error! Bookmark not defined.

**12. Atodiad 3 ……………………………………………………… …………..25**

## 2.0 GWYBODAETH DDEFNYDDIOL

### 2.1 CYFLWYNIAD

Dylid defnyddio’r llawlyfr hwn ar y cyd â’r dogfennau isod i sicrhau dealltwriaeth gynhwysfawr o Faterion Ymchwil Uwchraddedig. Mae’r llawlyfrau ar gael o Ysgol y Graddedigion a thrwy wefan y Brifysgol:

- Polisi a Gweithdrefnau ar gyfer Derbyn Myfyrwyr Uwchraddedig
- https://www.aber.ac.uk/en/academic-registry/handbook/pg-admissions/
- Llawlyfr y Rhaglen Ddatblygu i Fyfyrwyr Ymchwil: **https://www.aber.ac.uk/cy/grad-school/docs- handbooks/**
- Cod Ymarfer ar gyfer Uwchraddedigion Ymchwil: https://www.aber.ac.uk/cy/grad-school/forms-handbooks/
- Rheolau a Rheoliadau https://www.aber.ac.uk/cy/academic-registry/handbook/regulations/student-rules-regs/

### 2.2 YSGOL Y GRADDEDIGION

Mae **Ysgol y Graddedigion** yn ymdrin â Datblygiad Ymchwilwyr, darparu adnoddau i fyfyrwyr uwchraddedig, a monitro cynnydd academaidd myfyrwyr. Mae ganddi hefyd rôl gydlynol wrth ddatblygu polisi sy’n ymwneud â materion uwchraddedig.

Cewch gyfeirio **ymholiadau cyffredinol** at Mrs Jan Davies, Gweinyddwraig y Swyddfa (ffôn: 01970 622219) neu e-bostiwch **graduate.school@aber.ac.uk**.

### 2.3 CYSYLLTIADAU DEFNYDDIOL

**Y Gofrestrfa Academaidd** sy’n ymdrin â phob ymholiad ynghylch cofrestriad myfyriwr, cofnod academaidd, canlyniadau ac ardystiad. Ysgol y Graddedigion sy’n gyfrifol am y broses arholi ac am ateb ymholiadau ynghylch rheoleiddio. Gellir cyfeirio **ymholiadau cyffredinol** at: 01970 622195/622274 neu e-bost **pgstaff@aber.ac.uk**.

**Y Swyddfa Derbyn Uwchraddedigion** sy’n ymdrin â myfyrwyr hyd at yr amser y byddant yn cofrestru ar gyfer eu graddau. Os bydd gennych gwestiwn ynghylch darpar fyfyriwr, ffoniwch 01970 622921 neu e-bostiwch **pg-admissions@aber.ac.uk**.

**Y Swyddfa Ffioedd** sy’n ymdrin â chyfrifon ffioedd myfyrwyr. Dylai myfyrwyr sy’n dymuno talu ffioedd ac ati drwy gerdyn credyd neu drwy ddebyd uniongyrchol ffonio’r Swyddfa Ffioedd ar 01970 622041 neu e-bostio finance@aber.ac.uk. Mae staff y Swyddfa Gyllid hefyd yn ymdrin â thaliadau i ddalwyr ysgoloriaethau a delir drwy’r brifysgol.

**Mae’r Gwasanaethau Llyfrgell a TG** (Gwasanaethau Gwybodaeth) yn darparu gwasanaethau llyfrgell, cyfrifiadurol a chyfryngau i fyfyrwyr ym Mhrifysgol Aberystwyth, ac yn sicrhau bod copïau electronig o’r traethawd ymchwil terfynol ar gael er y bydd mewn rhai achosion yn sicrhau bod copïau papur ar gael ym Mhorth Ymchwil Aberystwyth ac yn Llyfrgell Hugh Owen, Campws Penglais. SY23 3DZ / 01970 622400 / gg@aber.ac.uk / http://www.aber.ac.uk/cy/is/index.html

Gall y **Gwasanaethau Cymorth i Fyfyrwyr** gynghori ynghylch materion personol nad yw arolygwyr yn teimlo y gallant eu hateb o bosibl, a gallant roi gwybodaeth am gyfleusterau cymorth myfyrwyr y brifysgol a materion ariannol. Ffoniwch 01970 621761 neu e-bostiwch **student-support@aber.ac.uk**.

**Gwasanaeth Hygyrchedd** – i gael cyngor am faterion yn ymwneud â myfyrwyr anabl, trawsryweddol a’r rhai sy’n gadael gofal (accessibility@aber.ac.uk)

**Gwasanaethau Cyngor, Gwybodaeth ac Arian** – cyngor am faterion megis cyllid a chaledi (student-adviser@aber.ac.uk)

**Gwasanaeth Lles y Myfyrwyr** – Ymarferwyr Iechyd Meddwl a Chwnsela i gefnogi lles myfyrwyr (studentwellbeing@aber.ac.uk)

Mae gan y **Gwasanaeth Gyrfaoedd** ymgynghorwyr sy’n gallu rhoi cyngor i ymchwilwyr uwchraddedig drwy gydol eu hyfforddiant a’u gyrfa. Cewch y manylion ar eu gwefan: **www.aber.ac.uk/careers/**.

**Cymorth Dysgu i Fyfyrwyr**

Mae cymorth ar gael i fyfyrwyr Rhyngwladol a myfyrwyr Cartref sy’n cael anawsterau iaith neu sydd eisiau cymorth i wella eu sgiliau ysgrifennu.

Gallwch gysylltu â’r **Swyddfa Llety** drwy ffonio 01970 622772/2773/1952 neu fynd i’r wefan: **www.aber.ac.uk/cy/accommodation/**.

Pennaeth Ysgol y Graddedigion sy’n cadeirio **Pwyllgor Monitro Myfyrwyr Ymchwil Ysgol y Graddedigion**. Mae'r Pwyllgor yn cyfarfod deirgwaith bob sesiwn i ystyried cynnydd y myfyrwyr a materion sy’n effeithio ar fyfyrwyr ymchwil.

Pennaeth Ysgol y Graddedigion sy’n cadeirio’r

**Pwyllgor Graddau Ymchwil**. Y Pwyllgor sy'n gyfrifol am oruchwylio ymgeisyddiaethau am raddau ymchwil o'r cofrestru hyd yr arholi ac mae'n rhoi cyngor ynghylch materion sy'n ymwneud â myfyrwyr ymchwil uwchraddedig. Bydd yn cyfarfod deirgwaith y flwyddyn ac ef sy'n gyfrifol am ansawdd a safonau rhaglenni'r graddau ymchwil.

# 3.0 COFRESTRU AC YMSEFYDLU MYFYRWYR

### 3.1 COFRESTRU

Mae angen i fyfyrwyr gofrestru ar ddechrau eu hastudiaethau ac yna bob mis Medi yn ystod eu cyfnod cofrestriad. Caiff gwybodaeth am gofrestru a'r ymsefydlu ei hanfon ymlaen llaw at bob myfyriwr newydd. Caiff y myfyrwyr sy'n dychwelyd wybod drwy e-bost a thrwy we-dudalennau'r Gofrestrfa Academaidd am y drefn ailgofrestru. Mae ailgofrestru'n amodol ar gynnydd boddhaol. Ar ôl i fyfyrwyr gofrestru'n ffurfiol, bydd y Brifysgol yn caniatáu iddynt ddefnyddio'i hadnoddau. Darperir tystysgrifau cofrestru os gofynnir i'r Gofrestrfa Academaidd amdanynt. I gael gwybodaeth lawn, trowch at **God Ymarfer i Uwchraddedigion Ymchwil** y Brifysgol: **www.aber.ac.uk/cy/grad-school/docs-handbooks/**.

Os nad yw myfyrwyr wedi cofrestru, cyfeiriwch hwy i'r Gofrestrfa Academaidd.

### 3.2 YMSEFYDLU

**Ymsefydlu yn y Brifysgol**

Ar ddechrau pob blwyddyn academaidd, bydd Ysgol y Graddedigion yn trefnu rhaglen o gofrestru ac ymsefydlu i fyfyrwyr ymchwil amser llawn newydd ac mae'n orfodol i fyfyrwyr newydd. Mae'r cyfnod ymsefydlu hefyd yn cynnwys gweithdai cychwynnol sy'n orfodol i'r holl fyfyrwyr ymchwil. Anfonir manylion y rhaglen at y myfyrwyr newydd cyn iddynt ddod i Aberystwyth. Bydd manylion y rhaglen ar y wefan, a'r rhaglen ddiweddaraf (sef rhaglen y llynedd, yn ôl pob tebyg) i'w gweld yn: [https://www.aber.ac.uk/cy/grad-school/current-students/induction/](https://www.aber.ac.uk/cy/grad-school/current-students/induction/).
Bydd sawl adran a chyfadran hefyd yn cynnig eu rhaglen ymsefydlu eu hunain ac yn darparu'r manylion amdanynt ymlaen llaw hefyd. Os digwydd hynny, dylai myfyrwyr ddilyn cwrs ymsefydlu'r Brifysgol a chwrs ymsefydlu eu hadran/cyfadran. Gwneir trefniadau ymsefydlu eraill ym mis Mawrth ar gyfer myfyrwyr sy'n cofrestru ar ddechrau semester dau.

**Ymsefydlu yn y Gyfadran a'r Adran**

Yn ystod y cyfnod ymsefydlu, bydd Cyfadrannau a/neu adrannau'n darparu gwybodaeth ychwanegol am ymchwil uwchraddedig yn y maes perthnasol, enwau a manylion cyswllt yr arolygwyr, a gwybodaeth am y ffordd y mae'r trefniadau arolygu yn gweithio. Byddant hefyd yn darparu manylion am gyfleoedd i gwrdd â myfyrwyr ymchwil eraill a staff ar lefel adrannol a thu hwnt, ac i ddatblygu cymhwysedd ysgolheigaidd a'r gallu i feddwl yn annibynnol.

Dylai'r myfyriwr a'r arolygwr gyfarfod yn ystod y cyfnod ymsefydlu, a chytuno ar eu cynlluniau ar gyfer y rhaglen, gan gynnwys:

- Y canlyniadau y dymunir eu sicrhau, ac amcanion yr ymchwil, gan roi ystyriaeth i ofynion y noddwr, lle bo'n briodol;
- Hyfforddiant ac anghenion addysgiadol cyffredinol y myfyriwr yn unol â gofynion y **Fframwaith Datblygu Ymchwilwyr** [gweler Atodiad 1];
- Sut y bydd y myfyriwr yn cyfleu ei gynnydd/ei chynnydd i'r arolygwr/arolygwyr, a sut y byddant yn trefnu cyfarfod yn rheolaidd;
- Monitro cynnydd o ran yr agweddau ar y rhaglen sy'n ymwneud ag ymchwil a hyfforddiant.

# 4.0 AMGYLCHEDD A CHYFLEUSTERAU YMCHWIL

### 4.1 SICRHAU AMGYLCHEDD YMCHWIL PRIODOL

**Diwylliant Ymchwil**

Mae ymchwil uwchraddedig yn rhan annatod o ddiwylliant a gweithgaredd ymchwil y Brifysgol a chaiff ei gwneud mewn amgylchedd academaidd sy'n meithrin ac yn cefnogi lefel uchel o ysgolheictod creadigol ac annibynnol. Dyma rai o ddangosyddion ymchwil o safon uchel: llwyddiant amlwg ym maes ymchwil ymhlith y staff (o ran cynnyrch eu hymchwil), digon o staff wrthi'n ymchwilio'n weithgar, gan gynnwys ymchwilwyr ôl-ddoethurol a myfyrwyr ymchwil, a'r gallu i ddenu cyllid o'r tu allan.

Mae'r Ysgol i Raddedigion yn ganolog i ddiwylliant ymchwil yr uwchraddedigion yn y Brifysgol. Ceir rhagor o fanylion ar **www.aber.ac.uk/cy/grad-school/**, ac yn y Strategaeth Uwchraddedig. Diben allweddol yr ysgol i Raddedigion yw meithrin synnwyr o gymuned ac i gyflwyno'r myfyrwyr i ymchwil amlddisgyblaethol.

Ymhlith cydrannau eraill amgylchedd sy'n cefnogi ymchwil uwchraddedig mae:

- Darparu arolygwyr sydd â'r sgiliau a'r wybodaeth angenrheidiol i hwyluso cwblhau rhaglenni ymchwil y myfyrwyr yn llwyddiannus o fewn y cyfnodau cwblhau;
- Hyfforddiant sgiliau ymchwil priodol a datblygiad personol parhaus [gweler y **Fframwaith Datblygu Ymchwilwyr** yn Atodiad 1];
- Canllawiau ynghylch moeseg ymchwil a chamymddygiad ymchwilio, eiddo deallusol a llên-ladrad, a materion iechyd a diogelwch;
- Defnydd o adnoddau lles a chefnogaeth briodol;
- Cyfleoedd i fyfyrwyr gyfnewid syniadau ag ymchwilwyr eraill, a datblygu rhwydweithiau cymorth â'u cydweithwyr;
- Cyfleoedd i sefydlu mentrau sy'n cael eu rhedeg gan uwchraddedigion (e.e. seminarau, cynadleddau a chyfnodolion);
- Cyfle i'r myfyrwyr gael eu cynrychioli'n effeithiol, a rhoi sylw i sylwadau'r myfyrwyr, gan gynnwys eu cwynion;

- Digon o fecanweithiau gweithredu a monitro i sicrhau bod prosiectau a wneir ar y cyd â sefydliad neu gorff arall yn cynnal safonau'r naill a'r llall.

  I ddarparu a meithrin amgylchedd digonol a phriodol ar gyfer gwneud ymchwil uwchraddedig, bydd angen i'r adrannau, mewn rhai meysydd astudio, ystyried cydweithio â disgyblaethau cydnaws neu drwy gyfrwng trefniadau ar y cyd â sefydliadau neu gyrff eraill.

**Cyfleusterau**

Wrth dderbyn myfyriwr ymchwil, mae'r Brifysgol a'r Adran dan sylw yn eu hymrwymo'u hunain i ddarparu'r cyfleusterau sy'n angenrheidiol ar gyfer cwblhau'r prosiect ymchwil y cytunwyd arno. Bydd natur ac ystod y cyfleusterau cymorth yn amrywio yn ôl maes yr ymchwil a'r prosiect ymchwil ei hun. Os yw'n bolisi codi ffi ar fyfyrwyr am ddefnyddio unrhyw gyfleusterau, neu gyfyngu mewn unrhyw fodd ar eu defnyddio, caiff hynny ei nodi'n glir ar ddechrau'r ymchwil. Fel yr amlinellir yn y **Cod Ymarfer i Uwchraddedigion Ymchwil**, bydd y cyfleusterau cymorth a fydd ar gael yn cynnwys, yn dibynnu ar ofynion y prosiect a'r adnoddau sydd ar gael:

(a) Lle priodol i weithio, o fewn amgylchedd gwaith uniongyrchol y myfyriwr, os yw'n bosibl;

(b) Mae'r Gwasanaethau Gwybodaeth yn darparu ardaloedd astudio i oddeutu 1100 o fyfyrwyr o fewn dwy lyfrgell, ac mae un ohonynt ar agor 24 awr y dydd yn ystod y tymor. Ynghyd â'r gwasanaeth benthyca llyfrau printiedig traddodiadol, mae dros 40,000 o deitlau e- gyfnodolion, 100,000 o e-lyfrau a dwsinau o gronfeydd data ar gael ar y campws ac oddi arno. Mae'r gwasanaethau ychwanegol yn cynnwys Mwy o Lyfrau (stoc a ddewiswyd gan y myfyrwyr) a Chyflenwi Dogfennau (benthyciadau rhwng llyfrgelloedd). Mae Llyfrgell Genedlaethol Cymru (llyfrgell hawlfraint Cymru) gerllaw a gellir ei defnyddio gan fyfyrwyr a staff y Brifysgol at ddibenion cyfeirio.

(c) Darperir dros 500 o gyfrifiaduron bwrdd gwaith ar y campws ac amrywiaeth o feddalwedd cymwysiadau. Mae gan y rhwydwaith diwifr (eduroam) signal eang ledled y campws gan gynnwys yn yr ystafelloedd dysgu, y llyfrgelloedd a rhai ardaloedd yn yr awyr agored. Mae gan yr holl staff a myfyrwyr gyfrif e-bost drwy Office 365, gwasanaeth cwmwl sy'n cynnwys storfa o 50GB ar gyfer negeseuon e-bost a ffeiliau. Mae adnoddau argraffu, llungopïo a sganio hunanwasanaeth ar gael mewn nifer o leoliadau ar y campws.

(ch) Os yw'n berthnasol i'r prosiect ymchwil, mynediad i gyfleusterau labordy, nwyddau labordy, offer gwyddonol a gwasanaethau ffotograffig, ayb;

(d) Cyfleusterau llun-gopïo a phostio priodol ac,

(dd) Os yw'n uniongyrchol berthnasol i'r prosiect ymchwil, mynediad priodol i rwydweithiau ffôn mewnol ac allanol;

(e) Cymorth ariannol i fynd i gynadleddau a digwyddiadau cyffelyb;

(f) Hyfforddiant ymchwil a sgiliau priodol.

**Myfyrwyr Ymchwil Rhan-amser**

Bydd adrannau ac arolygwyr yn sicrhau y caiff myfyrwyr ymchwil rhan-amser eu goruchwylio'n effeithiol, ac yn cymryd i ystyriaeth y problemau a'r amgylchiadau arbennig a all godi o wneud ymchwil yn rhan-amser, yn arbennig os yw'r myfyrwyr yn astudio o bell. Rhaid, yn arbennig, i arolygwyr gadw mewn cysylltiad rheolaidd â myfyrwyr ymchwil rhan- amser sydd heb fod yn byw yn Aberystwyth. Bydd y Gwasanaethau Gwybodaeth yn cynghori myfyrwyr ynghylch defnyddio cyfrifiaduron a chyfleusterau llyfrgell o bell yn ogystal â phan fyddant yn Aberystwyth.

**Cyfnod Ysgrifennu**

Y 'cyfnod ysgrifennu' yw'r enw a roddir yn gyffredinol ar y cyfnod rhwng diwedd cyfnod y cofrestriad a'r dyddiad hwyraf ar gyfer cyflwyno. Bydd myfyrwyr na fydd wedi cwblhau eu traethawd erbyn diwedd cyfnod arferol cofrestru yn dal i gael arolygiaeth ac yn cael mynediad rhad ac am ddim i adnoddau llyfrgell a TG y Brifysgol.

Bydd myfyrwyr amser-llawn, trwy wneud cais, yn cael eu heithrio rhag talu Treth y Cyngor yn y flwyddyn 'ysgrifennu'. Gall myfyrwyr MPhil hefyd gael eu heithrio am chwe mis ar ôl diwedd eu cofrestriad. Ni all myfyrwyr yn y cyfnod ysgrifennu wneud cais i dynnu'n ôl dros dro.

### *4.2* LLAWLYFRAU ADRANNOL *

**(* Gall rhai myfyrwyr wneud hyn ar lefel Cyfadran)**

Rhaid i'r adran sicrhau bod yr amrywiaeth angenrheidiol o gyfleusterau, arfau dysgu ac addysgu, ac offer ymchwil ar gael cyn iddi ystyried derbyn myfyrwyr i weithio mewn meysydd astudio penodol. Mewn rhai achosion, caiff y cyfleusterau hyn, gan gynnwys lle mewn swyddfa neu le i weithio, eu diffinio, eu mynnu neu eu hargymell gan y cyngor ymchwil perthnasol neu'r corff sy'n noddi. Dylai'r adrannau sicrhau bod y myfyrwyr yn cael gwybod sut i gael gafael ar y cyllid cymorth ymchwil neu hyfforddiant y mae ganddynt hawl iddo neu y gallant wneud cais amdano.

Rhaid i'r adrannau sicrhau bod y myfyrwyr yn cael gwybod am y polisi a'r arferion o ran arolygu. Fel rheol, fe wnânt hynny drwy gyhoeddi **llawlyfr ymchwil yr adran** ar bapur neu ar y we. Dylai'r llawlyfr restru'r cyfleusterau, yr adnoddau cyffredinol a'r offer arbenigol sydd ar gael, gan gynnwys:

- Yr amgylchedd a'r cyfleusterau ymchwil (gan gynnwys cyfleoedd i wella sgiliau ymchwil, e.e. seminarau ymchwil yr adran a gweithdai hyfforddiant doethurol): gweler 3.1.2 uchod
- Cwrs ymsefydlu yr adran
- Adolygiadau a monitro, gan gynnwys y meini prawf ar gyfer cwblhau'r cyfnod prawf ac, os yw'n berthnasol, uwchraddio o MPhil i PhD, a'r meini prawf ar gyfer symud ymlaen
- Cadw cofnodion
- Adborth a chynrychiolaeth y myfyrwyr
- Cyfleoedd i addysgu, a chynlluniau hyfforddi a chynlluniau mentora
- Eiddo deallusol
- Moeseg ac arferion da ym myd ymchwil
- Iechyd a diogelwch
- Canllawiau ar sut mae priodoli awduraeth yn gywir ar gyfer papurau y mae'r myfyriwr a'r arolygwr wedi cyfrannu atynt
- Lles
- Y llwybrau y dylai'r myfyriwr eu dilyn os bydd anawsterau arolygu.

### 4.3 CYFOETHOGI'R AMGYLCHEDD YMCHWIL

Mae'n hanfodol i fyfyrwyr uwchraddedig fod yn gwbl ymwybodol o ddiddordebau ymchwil cyfredol aelodau'r adran, a'r amrywiaeth o weithgarwch y maent yn ymgymryd ag ef. Dylai'r adran hysbysebu, yn fewnol ac yn allanol, ei diddordebau a'i chynnyrch ymchwil. Dylai'r adrannau wneud eu gorau glas i gynnwys myfyrwyr uwchraddedig yn eu hymchwil. Dylent hefyd annog myfyrwyr i ymaelodi â'r cymdeithasau academaidd perthnasol, mynd i seminarau ymchwil yr adran a'r brifysgol neu i golocwia a chynadleddau pwnc allanol, a chyflwyno papurau ynddynt.

### 4.4 UNIONDEB MOESEG A YMCHWIL

Mae'r Brifysgol wedi ymrwymo i sicrhau bod pob gweithgaredd ymchwil gan staff neu fyfyrwyr israddedig neu uwchraddedig yn glynu wrth y canllawiau sydd wedi'u cyhoeddi ar arfer da ac wrth fethodolegau sy'n briodol ac yn foesegol gadarn. Mae datblygu ymwybyddiaeth o'r materion hyn hefyd yn elfen bwysig wrh hyfforddi'r genhedlaeth nesaf o ymchwilwyr. Mae'r 'Canllawiau ar Arferion Da ym myd Ymchwil' i'w gweld yn: **www.aber.ac.uk/ethics** a chyfrifoldeb yr arolygwyr yw ymgyfarwyddo â'r materion a gaiff sylw yn y ddogfen honno. Dylent nodi bod y Brifysgol yn rhoi cryn bwys ar gynyddu ymwybyddiaeth ymchwilwyr ifanc o'r angen i ddatblygu methodolegau cadarn wrth wneud eu hymchwil ac i feithrin dealltwriaeth o arferion da. O ganlyniad, mae gofyn i bob adran asesu goblygiadau moesegol prosiectau ymchwil ei myfyrwyr ar ddechrau'r rhaglen astudio, a'u hadolygu'n rheolaidd fel rhan o'r trefniadau monitro. <u>Mae'n rheidrwydd ar fyfyrwyr i gwblhau asesiad moesegol ar-lein o leiaf</u>.

O ystyried y bydd traethodau ymchwil ar gael ar-lein ac yn y llyfrgell, dylai arolygwyr fod yn arbennig o ymwybodol o gynrychiolaeth data'r rhai sy'n cael eu cyfweld mewn traethodau ymchwil. Dylai methodolegau, dogfennau a phrosesau anhysbysu'r rhai sy'n cael eu cyfweld fod yn ddigon clir i'r darllenwyr wybod bod yr unigolyn a gyfwelir yn fodlon cael eu hadnabod neu'u hadnabod yn rhannol (lle gwaith neu enw defnyddiwr ar-lein, er enghraifft) neu ei bod hi'n gwbl amhosibl adnabod y sawl sy'n cael eu cyfweld fel y nodwyd mewn ffurflenni caniatâd sampl.

**Noder fod ymchwil sy'n defnyddio anifeiliaid yn dilyn llwybr cymeradwyo moeseg gwahanol.**

Mae'r ffurflen asesu moeseg ar-lein yn galluogi adrannau i asesu goblygiadau moesegol prosiectau ymchwil. Mae hynny'n galluogi adrannau i ystyried a all yr adran gymeradwyo'r gwaith neu a ddylid gwneud cais i Banel Moeseg Ymchwil y Brifysgol.

Bydd arolygwyr ac adrannau'n rhoi cyngor manwl ynghylch yr hyn y bydd ei angen, a dylai myfyrwyr gydnabod bod angen adolygiad moesegol o'r dulliau y maent yn debyg o'u mabwysiadu yn eu hymchwil. Mae'r Adran Ymchwil, Busnes ac Arloesi yn trefnu sesiynau hyfforddi a sesiynau galw-heibio yn rheolaidd, a gellir holi am fanylion drwy anfon e-bost at ethics@aber.ac.uk

Mae'r cynghorau ymchwil a chyrff proffesiynol eraill yn aml yn rhoi cyngor am faterion moesegol a disgwylir i'r arolygwyr sicrhau bod y myfyrwyr ymchwil yn gyfarwydd â'r rhain, does wahaniaeth a ydynt yn berthnasol yn uniongyrchol ag ymchwil y myfyriwr, yn rhan o'u hyfforddiant proffesiynol.

Mae'r Brifysgol hefyd yn cydymffurfio â'r Concordat i Gefnogi Uniondeb Ymchwil. Mae'r concordat yn amlinellu ymrwymiadau fydd yn darparu sicrwydd i'r llywodraeth, y cyhoedd ehangach a'r gymuned ryngwladol fod ymchwil yn y DU yn parhau i fod yn seiliedig ar y safonau uchaf o drylwyredd ac uniondeb.

Bydd y concordat, a ddatblygwyd mewn cydweithrediad â'r cynghorau cyllido ac ymchwil, Ymddiriedolaeth Wellcome ac amryw o adrannau'r llywodraeth, yn gwneud y canlynol:

- Darparu gwell cydlyniad o ran agweddau cyfredol at uniondeb ymchwil
- Galluogi cyfathrebu ymdrechion yn fwy effeithiol i sicrhau bod y safonau uchaf o drylwyredd ac uniondeb yn parhau'n sylfaen i'n holl ymchwil
- Annog rhagor o dryloywder ac atebolrwydd ar lefel y sefydliad a'r sector

- Hybu adfyfyrio ar arferion cyfredol i nodi lle gellir gwneud gwelliannau.

Ceir rhagor o wybodaeth am y Concordat i gefnogi uniondeb ymchwil yma **http://www.aber.ac.uk/cy/research/good-practice/research-integrity/**.

### 4.5 AWDURAETH

Mae arolygwyr a myfyrwyr ymchwil yn aml yn gweithio gyda'i gilydd i lunio papurau ar gyfer cynadleddau neu i'w cyhoeddi. Mae hyn yn rhan o berthynas ymchwil ac i'w annog pan fo'n briodol. Ond, mae'n rhaid sicrhau eich bod yn priodoli'r awduraeth yn gywir. Mae'r arferion disgyblaethol am hyn yn amrywio a dylai'r myfyrwyr a'r arolygwyr lynu wrth y safonau disgyblaethol, sydd yn aml ar gael trwy gymdeithasau proffesiynol. Os oes gennych unrhyw amheuon, cynghorir y cyfranwyr i gysylltu â'r Deoniaid Cyswllt Cyfadrannol.

### 4.6 AMGYLCHEDD IECHYD A DIOGELWCH

Mae'r Brifysgol wedi ymrwymo i iechyd, diogelwch a lles yr holl staff, myfyrwyr ac eraill, ynghyd â'r amgylchedd y mae ein gweithgareddau'n effeithio arno.  Mae gan bawb yng Nghymuned y Brifysgol gyfrifoldeb dros ddiogelu iechyd, diogelwch a'r amgylchedd, cyfrifoldeb penodol arolygwyr yw sicrhau bod eu myfyrwyr graddedig yn nodi peryglon sy'n gysylltiedig â'u gwaith a rheoli'r mesurau rheoli risg i lefel oddefadwy.  Bydd hyn yn cynnwys datblygu asesiad risg sy'n cynnwys risg sylweddol rhagweladwy o niwed a gall gynnwys anghenion hyfforddi ychwanegol i'r myfyriwr a'r arolygwr.

Am fwy o wybodaeth, ewch i dudalennau gwe IDA: https://www.aber.ac.uk/en/hse/, cysylltwch â'ch Cydlynydd IDA Adrannol neu cysylltwch â'r Tîm IDA drwy hasstaff@aber.ac.uk neu 2073.

### 4.7 ANABLEDDAU

Nod y Brifysgol yw darparu profiad o'r safon uchaf i'w holl fyfyrwyr a sicrhau bod ein cyfleusterau academaidd ar gael i bawb sy'n bodloni'n gofynion derbyn.

I fyfyrwyr anabl, y rhai sydd â chyflyrau iechyd corfforol/meddyliol hirsefydlog neu wahaniaeth dysgu penodol, rydym yn ceisio cynnig cwricwlwm cynhwysol sy'n hygyrch i bawb, llety wedi'i addasu, a mynediad i ardaloedd dysgu sydd â chyfrifiaduron, caledwedd arbennig, meddalwedd ychwanegol a mynediad i liniadur. Gall Ymgynghorwyr Hygyrchedd gynnig cyngor ar drefniadau arholi unigol a thechnoleg alluogi er mwyn i fyfyrwyr anabl allu cyflawni eu potensial llawn.

Bydd y Brifysgol yn ymdrechu i wneud addasiadau rhesymol ar gyfer myfyrwyr anabl pan fo cynnwys y cwrs yn caniatáu hynny. Efallai y bydd rhai achosion lle na fydd hyn yn bosibl (e.e. pan fo teithiau maes yn rhan hanfodol o'r gwaith). Y mae felly'n fuddiol i ymdrin â'r materion hyn yn ystod y broses dderbyn pan fo'n bosibl. I gael gwybod rhagor, ewch i https://www.aber.ac.uk/cy/sscs/accessibility/disability-learning-support/

I gael rhagor o wybodaeth am gymorth i fyfyrwyr ag anableddau – e-bostiwch: accessibility@aber.ac.uk neu ffoniwch ni ar  (01970) 621761 neu 622087.

## 5. AROLYGU

### 5.1 Y TÎM AROLYGU

Polisi'r Brifysgol hon yw sicrhau bod gan bob myfyriwr o leiaf un prif arolygwr, a bod yr arolygwr hwnnw fel rheol yn rhan o dîm arolygu. Rhaid i o leiaf ddau aelod o'r staff ymwneud ag arolygu pob myfyriwr ymchwil. Gall y tîm arolygu hefyd gynnwys cydlynydd uwchraddedig yr adran a/neu staff eraill sy'n weithgar ym myd ymchwil.

**Arolygu ar y cyd**

Arolygu ar y cyd yw pan fo gan fyfyriwr ymchwil ddau brif arolygwr yn hytrach nag un prif arolygwr ac un ail arolygwr. Mae'r achos am arolygu ar y cyd ar sail ymchwil, NAILL AI pan nad oes modd i un aelod o staff arolygu pwnc y myfyriwr yn ddigonol NEU pan fo manteision amlwg o gael dau safbwynt ar sail fwy rheolaidd nag a geir gydag ail arolygwr. Mae gan arolygwyr ar y cyd yr un cyfrifoldebau â'r prif arolygwyr.

Weithiau gallai arolygu ar y cyd gynnwys staff o ddwy Adran academaidd wahanol. Mewn achos o'r fath, mae'n rhaid i un Adran fod yn Adran arweiniol a bod yn gyfrifol am y myfyriwr. Bydd yn rhaid i'r myfyriwr gydymffurfio â safonau a disgwyliadau'r Adran honno i fyfyrwyr ymchwil.

### 5.2 CYMWYSTERAU AROLYGWYR

Dyma fydd yn nodweddu'r prif arolygwr fel arfer:

- Bydd ganddo/ganddi PhD neu arbenigedd proffesiynol priodol
- Bydd yn aelod parhaol o staff academaidd y Brifysgol hon
- Bydd eisoes wedi bod yn rhan o dîm arolygu sydd wedi gweld cwblhau o leiaf un PhD yn llwyddiannus
- Bydd wedi cael hyfforddiant perthnasol ynghylch arolygu ac ynghylch polisïau a gweithdrefnau arolygu penodol y sefydliad
- Bydd ganddo/ganddi arbenigedd perthnasol a diweddar mewn ymchwil ym maes pwnc arfaethedig y traethawd ymchwil.
- Dyma fydd nodweddion yr ail arolygwr fel rheol:
- Bydd ganddo/ganddi PhD neu arbenigedd proffesiynol priodol
- Bydd yn aelod parhaol o staff academaidd y Brifysgol hon neu o sefydliad neu gorff sy'n cydweithio â hi
- Bydd wedi cael hyfforddiant perthnasol ynghylch arolygu ac ynghylch polisïau a gweithdrefnau arolygu penodol y sefydliad
- **Nid** oes angen iddo/iddi fod â gwybodaeth arbenigol o bwnc arfaethedig yr ymchwil o reidrwydd ond dylai fod yn weithgar ym myd ymchwil yn y ddisgyblaeth neu'r maes astudio, o'i (d)diffinio'n fras

Gall aelodau o'r staff sydd ar brawf fod yn arolygwyr (yn brif neu'n ail arolygwyr) ar yr amod eu bod wedi

cwblhau'r hyfforddiant perthnasol, yn meddu ar y cymwysterau a'r profiad perthnasol, a bod yr arolygwyr eraill sy'n rhan o'r tîm arolygu yn aelodau mwy profiadol o'r staff academaidd.

Mae Ysgol y Graddedigion yn trefnu gweithdai rheolaidd ar gyfer arolygwyr sy'n trafod pob agwedd hanfodol ar arolygu traethodau ymchwil uwchraddedig ym Mhrifysgol Aberystwyth: gweler https:stafftraining.bis.aber.ac.uk/sd/list_courses.php

Cyhyd â bod y prif arolygwr yn aelod amser llawn o staff y Brifysgol hon, gall ail arolygwr sy'n gweithio'n rhan-amser neu'n cael ei gyflogi mewn sefydliad neu gorff arall fod yn rhan o'r tîm arolygu. Gall hynny ddigwydd yn achos:

- Myfyrwyr sy'n ymgymryd â phrosiectau a redir ar y cyd â phrifysgol arall;
- Arolygwyr sy'n gadael y Brifysgol hon neu'n ymddeol ohoni;
- Prosiectau ymchwil lle mae gofyn cael mewnbwn arbenigol.

Sylwch na all y naill arolygwr na'r llall gael ei benodi'n arholwr ar gyfer traethawd ymchwil eu hymgeisydd.

## 5.3 CYFRIFOLDEBAU'R PRIF AROLYGWR

### 5.3.1 Disgwyliadau Cyffredinol

Amlinellir cyfrifoldebau'r prif arolygwr, yr ail arolygwr (gweler isod) a'r myfyriwr ymchwil (gweler isod) yng **Nghod Ymarfer i Uwchraddedigion Ymchwil** y Brifysgol.

Mae cyfrifoldebau'r prif arolygwr yn cynnwys yn arbennig:

a) Bod â digon o wybodaeth am faes yr ymchwil i allu rhoi arweiniad a chyngor cywir ynghylch ymarferoldeb rhaglen ymchwil y myfyriwr, a'r cynnydd a wneir, ac i hyrwyddo cynhyrchu gwaith ymchwil o safon;

b) Bod yn atebol i'r Adran a'r Gyfadran berthnasol am fonitro cynnydd yr ymchwil;

c) Sefydlu a chadw cysylltiad rheolaidd â'r myfyriwr yn unol ag unrhyw amserlen y cytunwyd arni, a bod ar gael ar adegau priodol i ymgynghori drwy ba fodd bynnag sy'n fwyaf addas o ystyried lleoliad y myfyriwr a'i (d)dull astudio (y disgwyliad arferol fyddai awr bob pythefnos dros 44 wythnos, fel y bo'n briodol, drwy gydol 3 blynedd o astudio amser llawn: awr y mis yn achos myfyriwr rhan- amser);

d) Cyfrannu at asesu anghenion datblygiad y myfyriwr;

e) Darllen drafftiau a ysgrifennwyd gan y myfyriwr a rhoi adborth adeiladol ac effeithiol arnynt o fewn amser penodedig (fel arweiniad, dylid darparu'r adborth ar bennod cyn pen 3 wythnos waith);

f) Rhybuddio'r myfyriwr os yw cynnydd neu safon ei (g)waith ymchwil yn anfoddhaol, a threfnu unrhyw gamau cefnogol sy'n angenrheidiol;

g) Sicrhau bod y myfyriwr yn ymwybodol o'r angen i ymarfer uniondeb a'i fod/a'i bod yn gwneud ei (h)ymchwil yn unol ag egwyddorion moesegol, a'i fod/a'i bod yn ymwybodol hefyd o oblygiadau camymddwyn wrth wneud gwaith ymchwil;

h) Sicrhau y caiff y myfyrwyr wybod, yn gynnar yn eu cofrestriad, ei bod hi'n hanfodol iddynt ymatal rhag ffugio canlyniadau ymchwil a rhag cyflawni llên-ladrad;

i) Helpu'r myfyriwr i gymysgu ag eraill sy'n gweithio yn y maes ymchwil, er enghraifft, drwy annog y myfyriwr i fynd i gynadleddau perthnasol, ei helpu i geisio nawdd i ddigwyddiadau o'r fath ac, os yw'n briodol, cyflwyno papurau i gynadleddau ac erthyglau i gyfnodolion a ganolir;

j) Cyflawni unrhyw ddyletswyddau ffurfiol a pherthnasol mewn perthynas â'r rheoliadau iechyd a diogelwch;

k) Cynnal y lefel angenrheidiol o arbenigedd arolygu, gan gynnwys y sgiliau priodol, er mwyn cyflawni pob agwedd ar y rôl arolygu yn foddhaol, a manteisio ar gyfleoedd perthnasol i hybu datblygiad proffesiynol parhaus;

l) Sicrhau bod digon o amser di-dor ar gael i'w neilltuo i anghenion pob myfyriwr ymchwil unigol y maent yn ei (g)oruchwylio;

m) Sicrhau y caiff y myfyriwr gydnabyddiaeth briodol am unrhyw gyfraniad i brosiect ar y cyd, a rhoi cyngor ynghylch cyhoeddi gwaith academaidd a hawliau eiddo deallusol;

n) Darparu cymorth bugeiliol effeithiol a/neu gyfeirio'r myfyriwr at ffynonellau eraill o gymorth o'r fath, gan gynnwys ymgynghorwyr myfyrwyr (a'u tebyg), y Cydlynydd Uwchraddedig, ac eraill yng nghymuned academaidd y myfyriwr;

o) Sicrhau bod y myfyriwr yn ymwybodol o ffynonellau cyngor ar lefel y sefydliad, gan gynnwys cyngor ar yrfaoedd, a'r polisi ar gyfle cyfartal;

p) Meithrin ymdeimlad y myfyrwyr ymchwil o'u cyfrifoldeb personol dros ansawdd eu hymchwil;

q) Darllen y traethawd ymchwil yn ei gyfanrwydd a rhoi eu sylwadau arno cyn iddo gael ei gyflwyno (gweler ymhellach isod).

Dylai arolygwyr fod yn arbennig o effro i wahanol anghenion myfyrwyr unigol, gan gynnwys myfyrwyr rhyngwladol. Dylent hefyd wybod am yr amrywiaeth o gymorth sydd ar gael a sut y gall y myfyriwr gael gafael ar y cymorth hwnnw.

### 5.3.2 Monitro Cynnydd a Chadw Cofnodion

Y prif arolygwr sy'n gyfrifol am gyflwyno adroddiadau rheolaidd ar gynnydd y myfyriwr yn unol â

gweithdrefnau Pwyllgor Monitro Myfyrwyr Ymchwil yr Adran a'r Gyfadran ac Ysgol y Graddedigion ac am roi gwybod i'r myfyriwr am y materion allweddol yn yr adroddiadau hynny.

Mae'n bosibl y bydd gofyn i'r myfyrwyr sy'n symud ymlaen fod wedi cyflwyno darn sylweddol o waith ysgrifenedig (pennod neu ddwy, fel rheol, a chynnig a chynllun ymchwil llawn) sydd o safon foddhaol ac wedi'i ddarllen gan brif arolygwr yr ymgeisydd A HEFYD aelod

arall o'r staff. Dylai'r arolygwr ddarparu tystiolaeth benodol os penderfynwyd peidio ag argymell bod cynnydd y myfyriwr yn foddhaol, e.e. gofyn am ragor o adroddiadau prawf, cynghori'r myfyriwr i dynnu'n ôl dros dro, ei gwneud hi'n ofynnol i'r myfyriwr dynnu'n ôl o'r rhaglen neu argymell trosglwyddo i MPhil yn hytrach na pharhau i wneud PhD. (I gael manylion y rôl o ran symud ymlaen, gweler Adran 6). Mae rhagor o wybodaeth am weithdrefnau monitro'r Brifysgol, gan gynnwys symud ymlaen o'r cyfnod prawf ac uwchraddio o radd ymchwil Meistr i PhD, tynnu'n ôl, ac atal i'w gweld yng **Nghod Ymarfer Prifysgol Aberystwyth i Uwchraddedigion Ymchwil** sydd ar gael ar https://www.aber.ac.uk/cy/grad-school/forms-handbooks/.

Yn ogystal â chadw ffurflenni adroddiadau monitro, a chofnodion o'r dadansoddiad o anghenion hyfforddi (gweler uchod), gellir cadw cofnodion o'r cyfarfodydd ffurfiol rhwng arolygwyr a myfyrwyr, gan grynhoi ynddynt y materion allweddol a drafodwyd a'r pwyntiau gweithredu. Ceir enghraifft ohonynt yn Atodiad 2. Rhaid i'r arolygwr a'r myfyriwr weld y cofnod o'r cyfarfod a chytuno arno, a rhaid i'r adran gadw'r cofnod terfynol a gymeradwywyd yn ffeil y myfyriwr. Bydd rhai adrannau'n mynnu bod myfyrwyr yn cofnodi prif ganlyniadau eu cyfarfodydd â'u harolygwyr, gan gynnwys y camau y cytunwyd arnynt gan y naill ochr a'r llall, a dyddiad y cyfarfod nesaf. Rhoddir y cofnod hwnnw i'r arolygwr i'w adolygu er mwyn sicrhau ei fod yn ddisgrifiad cywir o'r trafodaethau. Dylid hefyd gadw gwybodaeth ategol sy'n ymwneud ag amgylchiadau esgusodol. Rhaid i'r arolygwr roi cyngor manwl ynghylch y dyddiadau cwblhau angenrheidiol ar gyfer camau olynol y gwaith er mwyn i'r myfyriwr gael gwybod am y gofynion o ran symud ymlaen, ei gynnydd/ei chynnydd a bod modd cyflwyno'r traethawd ymchwil o fewn yr amser penodedig.

Yn achos myfyrwyr rhyngwladol sydd angen fisa myfyriwr, mae gofynion ychwanegol ar gyfer monitro a chofnodi cynnydd, a bydd y Swyddfa Cydymffurfiaeth yn rhoi gwybod i'r arolygwyr am y gofynion hyn.

**5.3.3 Dadansoddi Anghenion Hyfforddi**

Caiff cynnwys yr hyfforddiant ymchwil a sgiliau mewn gwahanol feysydd ymchwil ei bennu gan y Cyfadrannau a'r Adrannau ar y cyd â Phennaeth Ysgol y Graddedigion. Rhoddir sylw i wahanol anghenion gwahanol garfannau o uwchraddedigion ac uwchraddedigion unigol. Caiff anghenion pob myfyriwr o ran hyfforddiant ymchwil, sgiliau a datblygiad eu nodi gan y myfyriwr a'r staff priodol (fel rheol, y prif arolygwr gan ymgynghori â Chyfarwyddwr Astudiaethau Uwchraddedig y Gyfadran) yn ystod y cyfnod ymsefydlu, a'u hadolygu'n rheolaidd yn ystod y rhaglen ymchwil a'u newid yn ôl y gofyn.

Cyrff Monitro Ymchwil y Gyfadran sy'n gyfrifol am sicrhau bod anghenion hyfforddiant ymchwil, sgiliau a datblygiad pob myfyriwr yn cael sylw. Pan roddir cyfle i fyfyrwyr uwchraddedig addysgu neu arddangos, cânt arweiniad a chymorth priodol ar lefel yr adran a/neu'r sefydliad.

Os bydd y gweithgaredd hwnnw hefyd yn cynnwys asesu myfyrwyr, bydd yr hyfforddiant yn adlewyrchu hynny. O fewn adrannau, bydd uwchraddedigion fel rheol yn rhan o dîm addysgu ehangach er mwyn iddynt elwa o'r cymorth a'r mentora a gânt gan staff profiadol. I gael gwybod rhagor am hyfforddiant ymchwil, trowch at **Gôd Ymarfer Prifysgol Aberystwyth i Uwchraddedigion Ymchwil**, a **Llawlyfr y Rhaglen Ddatblygu i Fyfyrwyr Ymchwil** a ddarperir gan Ysgol y Graddedigion, a llawlyfrau perthnasol yr adran.

**5.3.4 Cyflwyno Hyfforddiant**

Argymhelliad Adroddiad Roberts ar Asesu Ymchwil yw neilltuo'r hyn sy'n cyfateb i o leiaf bythefnos y flwyddyn i hyfforddiant mewn sgiliau trosglwyddadwy. Gall yr hyfforddiant hwnnw gael ei ddarparu gan yr Adran neu'r Brifysgol neu yn allanol. Rhaid i arolygwyr ganiatáu amser i'r myfyrwyr fodloni'r gofynion hyfforddi hyn. Gall yr anghenion fod wedi'u pennu gan y cyngor ariannu ymchwil sy'n noddi'r myfyriwr, a gall fod arian wedi'i glustnodi i dalu am yr hyfforddiant hwnnw. Dylai arolygwyr ymgyfarwyddo â'r ffyrdd y gall myfyrwyr gael gafael ar yr arian a hefyd sut y gallant wneud cais am y cyllid a'r cyfleoedd a allai fod ar gael gan unrhyw Gyngor Ymchwil arall, y Brifysgol neu'r adran ar gyfer ymchwil, hyfforddiant neu sgiliau. Ceir gwybodaeth ddefnyddiol ar y wefan Derbyn Uwchraddedigion: **www.aber.ac.uk/cy/postgrad/**.

5.3.5 **Adolygu Gwaith Ysgrifenedig a Rhoi Adborth**

Rhaid i'r arolygwr ddarllen drafftiau ysgrifenedig sydd wedi'u cynhyrchu gan y myfyriwr a rhoi sylwadau adeiladol ac effeithiol arnynt o fewn amser penodedig (fel arfer dylid rhoi sylwadau ar bennod cyn pen tair wythnos waith). Os caiff gais i wneud hynny, rhaid i'r arolygwr hefyd roi cyngor a sylwadau ar ddarnau gwaith eraill sydd i'w hasesu, e.e. ar gyfer modiwlau hyfforddiant ymchwil yr adran neu'r brifysgol. Rhaid gwneud hyn mewn pryd i alluogi i'r gwaith gael ei ddychwelyd gydag adborth o fewn y cyfnod safonol o dair wythnos. Ystyrir hyn yn brif swyddogaeth gan Ysgol y Graddedigion.

Mae disgwyl i arolygwr ddarllen a rhoi sylwadau ar yr holl draethawd ymchwil cyn iddo gael ei gyflwyno, a rhoi adborth ar ei gryfderau a'i ddiffygion. Er y dylai traethodau ymchwil fod yn waith y myfyrwyr ac nid yr arolygwyr, dylai arolygwyr gynghori myfyrwyr er mwyn iddynt allu cywiro diffygion mawr. Er y dylai arolygwyr roi gwybod i'r myfyrwyr am wendidau yn iaith, cyflwyniad neu batrwm eu traethawd, nid rôl yr arolygwyr yw golygu'r gwaith na'i brawfddarllen. Gellir gohirio cyflwyno'r traethawd os yw'r traethawd ymchwil yn ddifrifol o ddiffygiol a bod gan y myfyriwr amser cyn

y dyddiad cau i ddiwygio'r gwaith.

Yna, rhaid i'r myfyriwr, gan ymgynghori â'r arolygwr, benderfynu pryd y mae'r traethawd ymchwil yn addas i'w gyflwyno. Dylai'r naill ochr a'r llall fod yn ymwybodol, wrth gwrs, o'r dyddiadau cau ar gyfer ei gyflwyno. Cewch y manylion amdanynt yn Adran 6. Gall myfyrwyr sy'n methu â chyflwyno mewn pryd wneud cais (o dan amgylchiadau eithriadol yn unig) am estyniad i'r dyddiad cau ar gyfer cyflwyno'u traethodau ymchwil. Os yw myfyrwyr yn bwriadu gwneud cais am estyniad, dylent gytuno â'u harolygwyr ar amserlen gwblhau cyn gwneud y cais. I gael gwybod rhagor, trowch at **God Ymarfer Prifysgol Aberystwyth i Uwchraddedigion Ymchwil**.

**5.3.6 Eiddo Deallusol, Ymddygiad Academaidd Annerbyniol, Llên-ladrad a Chyfeiriadau**

Dylai'r arolygwr roi gwybod i'r myfyriwr am faterion sy'n ymwneud ag eiddo deallusol (gan gynnwys polisi'r Brifysgol ar Hawliau Eiddo Deallusol – gweler https://www.aber.ac.uk/cy/hr/info-staff/all/policy-and-procedure/au-and-bu/intellectual-property/, ymddygiad academaidd annerbyniol a llên-ladrad, a bod yn ymwybodol o weithdrefnau'r Brifysgol ar gyfer ymdrin â chamymddwyn wrth wneud ymchwil. Mae rhagor o wybodaeth am y materion hyn i'w chael yng **Nghôd Ymarfer i Uwchraddedigion Ymchwil** y Brifysgol. Yr arolygwr sy'n gyfrifol am roi gwybod i'r myfyriwr am y confensiynau sy'n **berthnasol yn y maes** o ran cyfeiriadau llyfryddol a'r ffurf dderbyniol ar droednodiadau a/neu ôl-nodiadau yn y traethawd ymchwil. Cyn i'r traethawd gael ei gyflwyno, bydd y Gofrestrfa Academaidd yn darparu canllawiau ynghylch paratoi'r traethawd i'w gyflwyno.

Mae'n rhaid i'r traethawd ymchwil terfynol fod yn addas ar gyfer Mynediad Agored, felly mae'n rhaid ystyried hawlfraint trydydd parti cyn adneuo'r traethawd ymchwil terfynol ym Mhorth Ymchwil Aberystwyth. Os oes llawer o ddeunydd trydydd parti (er enghraifft lluniau neu ddyfyniadau hir) wedi cael eu defnyddio heb ganiatâd, gellir eu dileu gan gadw'r dyfyniadau yn eu lle.

Ymdrinnir â gwaith drafft a gyflwynir i arolygwyr, ond nad yw'n bodloni safonau arfer academaidd priodol, gan yr arolygwr sy'n rhoi adborth ar y gwaith drafft yn y lle cyntaf. Os yw myfyriwr yn ceisio cyflwyno gwaith rhywun arall fel eu gwaith eu hun yn systematig, caiff y myfyriwr ei gyfeirio/chyfeirio at y Pwyllgor Monitro Ymchwil ac efallai ei atal/hatal rhag parhau â'r rhaglen radd. Ym mhob achos, bydd y camau y dylai'r myfyriwr a'r arolygwr eu cymryd, yn cael eu cyfathrebu'n glir i'r myfyriwr yn ysgrifenedig ynghyd â chanlyniadau posibl peidio â chydymffurfio. Bydd yr adran yn cadw cyfres lawn o ddogfennau am y broblem a'r canlyniad.

Ymdrinnir ag ymddygiad academaidd annerbyniol mewn asesiad ffurfiol o aseiniadau modiwl hyfforddiant ymchwil neu'r traethawd ymchwil ei hun drwy weithdrefnau Ymddygiad Academaidd Annerbyniol y Brifysgol ar https://www.aber.ac.uk/cy/academic-registry/handbook/regulations/uap/

**5.3.7 Diogelu Ymchwil Sensitif**

Ambell waith, gall y deunydd sydd yn y traethawd ymchwil gael ei ystyried yn fasnachol sensitif neu fe all y myfyriwr, am ryw reswm arall, ddymuno cyfyngu ar fynediad i'r traethawd ymchwil. Os felly, os oes copi papur argraffedig ar gael, dylai'r arolygwr (ar y cyd â Phennaeth yr Adran) gyflwyno cais i'r Pwyllgor Graddau Ymchwil drwy Ysgol y Graddedigion i gael rhwystro mynediad iddo (sef rhwystro mynediad y cyhoedd i'r traethawd ymchwil am gyfnod penodedig). Mae'n bwysig gwneud y cais cyn gynted â phosibl. Os na sylweddolir tan adeg cyflwyno'r traethawd ymchwil terfynol fod angen gwneud hynny, gall achosi amryw o drafferthion diangen. Os dymuna'r myfyriwr gyfyngu'r mynediad i'r traethawd electronig yng nghadwrfa Porth Ymchwil Aberystwyth yn unig, gall wneud hynny os bydd y Gyfadran yn cymeradwyo.

Mae traethodau ymchwil a gyllidir yn allanol yn amodol ar yr un gofynion Mynediad Agored â chynnyrch cyfnodolion staff (https://www.aber.ac.uk/en/research/good-practice/open-access/who/ ), gyda'r AHRC yn cynnig y cyfnod embargo derbyniol hwyaf (12 mis) cyn y dylai'r testun llawn fod ar gael gyda Mynediad Agored. Mae'n rhaid i'r Gyfadran fod yn ymwybodol o'r gofyniad hwn wrth drefnu adneuo traethodau ymchwil electronig ac wrth awdurdodi cyfnodau embargo, a dylai gysylltu â'r Gwasanaethau Gwybodaeth i gofnodi eithriadau derbyniol (o ganlyniad i gontractau â phartneriaid diwydiannol er enghraifft).

Yn annibynnol ar yr uchod, bydd y Gwasanaethau Gwybodaeth hefyd yn cynnal gwiriadau byr o'r traethodau ymchwil electronig cyn sicrhau Mynediad Agored iddynt, a byddant yn rhoi embargo parhaol ar y rhai sy'n peri risg uchel o dorri hawlfraint 3ydd parti a/neu ddiogelu data, a gallai'r embargos hyn effeithio hefyd ar allu daliwr y cyllid i fodloni gofynion Mynediad Agored.

**5.3.8 Paratoi at yr Arholiad Llafar**

Dylai'r arolygwr helpu i baratoi'r myfyriwr ar gyfer yr arholiad llafar drwy gadarnhau fformat y bwrdd arholi, esbonio'r drefn ar gyfer cynnal yr arholiad llafar a sicrhau bod y myfyriwr yn deall penderfyniadau posibl y gallai'r bwrdd arholi eu gwneud, a goblygiadau'r penderfyniadau hynny. Ceir rhagor o wybodaeth yn y **Cod Ymarfer i Uwchraddedigion Ymchwil**. Os oes modd, dylai'r arolygwr drefnu i'r myfyriwr gael 'ffug' arholiad llafar cyn yr arholiad ei hun. Mae Ysgol y Graddedigion yn trefnu gweithdai arholiadau llafar yn rheolaidd: gweler https://stafftraining.bis.aber.ac.uk/sd/list_courses.php

**5.3.9 Rôl yr Arolygwr yn y Broses Arholi**

Ni chaiff arolygwr yr ymgeisydd fod yn arholwr ar y

traethawd ymchwil, ond fe all fod yn bresennol, o gael gwahoddiad gan y Cadeirydd a chaniatâd yr ymgeisydd ymlaen llaw. Ni chaiff yr arolygwr siarad onibai y gwahoddir ef neu hi i wneud hynny gan y cadeirydd.

**5.3.10 Rôl yr Arolygwr wrth Fonitro Ymrwymiadau Dysgu**

Mae myfyrwyr ymchwil Uwchraddedig yn aml yn dysgu a/neu yn arddangos yn yr Adrannau. Caiff hyn ei gefnogi fel arfer yn y Brifysgol yn rhan o'r broses o hyfforddi a datblygu gyrfa. Disgwylir i'r adrannau roi cymorth i'r myfyrwyr gyda'r gweithgareddau hyn. Prif ddiben yr arolygwr yw sicrhau bod y gweithgareddau hyn yn **cefnogi** datblygiad gyrfa'r myfyriwr ac nad ydynt yn **peryglu**'r traethawd ymchwil. Os oes gan yr arolygwr unrhyw bryderon, dylai gysylltu â'r Adran, y Gyfadran neu â Phennaeth Ysgol y Graddedigion.

**SWYDDOGAETH YR AROLYGYDD YN Y DATBLYGIAD PROFFESIYNOL PARHAUS**

Mae'r Brifysgol yn ymwybodol ei bod hi'n fuddiol iawn i fyfyrwyr ymchwil ddatblygu amrywiaeth o sgiliau oherwydd, ymhlith pethau eraill, bydd hynny'n eu paratoi at fyd gwaith yn y dyfodol a rhoi gwell cyfleoedd gyrfaol iddynt. Efallai y bydd rhai o'r sgiliau hynny'n gysylltiedig yn uniongyrchol â'u hymchwil, ond bydd rhai yn fwy ymylol neu heb fod yn rhan uniongyrchol o'u hymchwil. Cyfrifoldeb tîm yr arolygwyr yw cynghori'r myfyrwyr ymchwil a'u hannog i ddatblygu eu sgiliau. Mae amrywiaeth o raglenni DPP a hyfforddiant ar gael (gweler y manylion yn https://www.aber.ac.uk/cy/grad-school/pg-skills-training/). Mae disgwyl hefyd i'r arolygwyr fod yn ymwybodol o gyngor PA i'w myfyrwyr ynghylch Datblygiad Proffesiynol Parhaol ac o ran sawl credyd rydym yn argymell y dylent eu casglu (gweler y manylion yn https://www.aber.ac.uk/cy/grad-school/researcher/guidance/ .

Mae'r Brifysgol yn gweithio tuag at gydymffurfio'n llawn â Siarter Gyflogaeth Uwchraddedigion.

## 5.4 CYFRIFOLDEBAU'R AIL AROLYGWR

Swyddogaeth yr ail arolygwr fel arfer yw cynorthwyo'r prif arolygwr a chynghori'r myfyriwr ar faterion mwy cyffredinol, neu os nad yw'r prif arolygwr ar gael am gyfnod dros dro (gall hyn gynnwys cyfnodau pan fydd y prif arolygwr ar absenoldeb ymchwil). Dylai'r ail arolygwr ddisgwyl bod yn bresennol mewn o leiaf un cyfarfod gyda'r myfyriwr a'r prif arolygydd bob tymor a darllen drafftiau o waith y myfyriwr fel y gall wneud cyfraniad ystyrlon i'r broses fonitro ffurfiol. Gall yr ail arolygydd hefyd fod yn fentor i'r myfyriwr o ran Datblygiad Proffesiynol Parhaus. Nid oes rhaid i'r ail arolygydd fod yn arbenigwr yn y pwnc gan nad yw'n ofynnol fel arfer iddynt gymryd lle'r prif arolygydd yn barhaol, pe byddai'r prif arolygwr yn rhoi'r gorau i arolygu'r myfyriwr am unrhyw reswm.

Cynghorir myfyrwyr uwchraddedig i drafod cwynion neu achwyniadau am y prif arolygwr gyda'r ail arolygwr neu gydlynydd uwchraddedig yr adran neu'r Gyfadran neu Ddeon Cyswllt – Ymchwil y Gyfadran yn y lle cyntaf. Os na ellir datrys y gŵyn ar y lefel hon, dylid cynghori'r myfyrwyr i ddilyn y drefn gwyno a amlinellir yng **Nghod Ymarfer Prifysgol Aberystwyth i Uwchraddedigion Ymchwil**.

Mewn achosion o gyd-arolygu neu arolygu-cyfun, bydd y ddau arolygwr yn rhannu'r rôl ymgynghorol academaidd.

## 5.5 ABSENOLDEB AROLYGWR AC ABSENOLDEB YMCHWIL

Os bydd arolygwr yn absennol am gyfnodau maith (h.y. mwy na mis) neu'n ymadael, bydd yr Adran yn gwneud darpariaeth briodol i gefnogi ymchwil y myfyriwr. Bydd yn trafod â'r myfyriwr a manylu ynghylch hynny cyn i'r arolygwr adael.

Gan gydnabod pwysigrwydd diogelu staff ar absenoldeb ymchwil rhag dyletswyddau academaidd eraill, caiff y polisi yn hyn o beth ei ddylanwadu gan yr egwyddor y dylai myfyrwyr gael cymorth di-dor a pharhaus trwy gydol eu cyfnod astudio. Mae'r polisi hwn hefyd yn cydnabod bod y gweithdrefnau ar gyfer caniatáu absenoldeb ymchwil yn cynnwys Penaethiaid yr Adrannau yn sicrhau'r Brifysgol bod yr holl ddyletswyddau dysgu (gan gynnwys arolygu) wedi'u cyflenwi'n foddhaol. Fel rheol dylid dilyn yr egwyddorion canlynol. Dylid cyflwyno unrhyw achosion eithriadol i Bennaeth Ysgol y Graddedigion.

- Pan fo'r prif arolygwr ar absenoldeb ymchwil, bydd disgwyl iddynt barhau i weithredu fel arolygwr. Efallai y bydd yr ail arolygwr neu unigolyn arall yn cymryd rhai o gyfrifoldebau'r prif arolygwr gan gynnwys y cyfarfodydd rheolaidd, cwblhau monitro a ffurflenni eraill, a darparu gofal bugeiliol. Gan gydnabod efallai nad oes gan yr ail arolygwr wybodaeth mor fanwl am y pwnc, bydd y prif arolygwr hefyd fel rheol yn darllen a rhoi sylwadau ar ddrafftiau o waith a gyflwynir pan fydd ar absenoldeb ymchwil. Cydnabyddir fodd bynnag y gall natur yr absenoldeb ymchwil ei gwneud yn anymarferol i'r prif arolygwr ddychwelyd y gwaith o fewn y cyfnod arferol o dair wythnos. Mae'n bosibl y bydd modd i'r ail arolygwr ddarparu adborth yn gynt.
- Pan fo'r prif arolygwr a'r ail arolygwr ar absenoldeb ar yr un pryd, dylai'r Adran wneud trefniadau i sicrhau bod y myfyrwyr yn cael eu goruchwylio'n ddigonol. Gallai hyn olygu 3ydd cydweithiwr sydd â phrofiad perthnasol, neu drefniadau lle mae'r prif arolygwr a'r ail arolygwr yn cadw cyswllt goruchwylio rheolaidd. Dylid trafod hyn â'r myfyrwyr. Dylai'r trefniadau hyn gael cymeradwyaeth Pennaeth Ysgol y Graddedigion cyn i'r ddau aelod o staff gychwyn ar eu habsenoldeb ymchwil.
- Os bydd myfyriwr yn llunio drafft terfynol o'u gwaith cyn cyflwyno, bydd y prif arolygwr yn darllen a rhoi sylwadau ar y drafft ym mhob achos ac eithrio amgylchiadau eithriadol.

## 5.6 NEWID AROLYGWR

Drwy gytundeb rhwng y myfyriwr a'r Brifysgol, ac os caniateir hynny gan delerau unrhyw gytundeb nawdd, gellir newid y cyfrifoldebau arolygu ar gais y myfyriwr neu arolygwr. Rhaid hysbysu'r Gofrestrfa Academaidd ynghylch newid arolygwr drwy MyPGR.

Gall myfyrwyr nad ydynt yn hapus â'u trefniadau arolygu ddilyn y weithdrefn a ddisgrifir yn Atodiad 3 y Llawlyfr hwn. Dylai staff nad ydynt bellach yn dymuno bod yn rhan o arolygu ymgeisydd drafod eu pryderon gyda'r cydlynydd Uwchraddedigion Ymchwil / pennaeth eu hadran. Cyd-destun y drafodaeth hon yw bod rhwymedigaeth ar y Brifysgol i ddarparu arolygaeth i ymgeisydd a bydd yn rhaid iddi wneud trefniadau amgen. Ni all arolygwyr optio allan o arolygu'n annibynnol. Fodd bynnag, pan fydd myfyriwr yn ymddwyn yn afresymol neu ddim yn gwneud cynnydd boddhaol, gellir cymryd camau disgyblu yn erbyn y myfyriwr. Yn yr un modd, mae gan y Brifysgol rwymedigaethau tuag at arolygwyr, na ddylent orfod goddef unrhyw ymddygiad annerbyniol.

### 5.7 AROLYGWYR ALLANOL

Mewn achosion lle cyflogir yr ail arolygwr gan sefydliad neu gorff arall, dylai'r adran fod â gweithdrefnau i sicrhau bod yr arolygwr yn bodloni'r cymwysterau fel y cânt eu hamlinellu yn Adran 4 o'r llawlyfr hwn. Bydd priodoldeb cyffredinol yr arolygwr allanol yn cael ei adolygu gan Bennaeth Ysgol y Graddedigion a dylid gofyn am gymeradwyaeth cyn gynted â phosibl; ac ni ellir cytuno ar y trefniadau arolygol â'r myfyriwr heb ganiatâd o flaen llaw gan Bennaeth Ysgol y Graddedigion.

Dim ond mewn achosion eithriadol y dylid penodi arolygwr allanol yn brif arolygwr. Rhaid cael caniatâd y Gyfadran i wneud hyn.

Bydd y cyfrifoldeb llawn dros arolygu'r myfyriwr yn dal i fod yn nwylo'r adran berthnasol, y Gyfadran a'r Brifysgol. Rhaid i'r adran ddisgrifio'n glir wrth arolygwyr allanol yr hyn y disgwylir iddynt ei wneud.

### 5.8 Y LLWYTH AROLYGU

Fel rheol, ni ddylai arolygwyr arolygu mwy na chwe myfyriwr ymchwil cyfystyr ag amser llawn. Wrth ystyried llwythi dysgu cyffredinol eu staff, bydd y Penaethiaid Adran yn cymryd ystyriaeth gyfrifoldebau eu staff o ran arolygu uwchraddedigion ymchwil yn ogystal â'u cyfrifoldebau dros ymchwil, gweinyddu a materion eraill, er enghraifft, dyletswyddau arholi allanol ac ymrwymiadau proffesiynol eraill. Dylent gymryd i ystyriaeth y ffaith mai'r disgwyl fel arfer fyddai iddynt arolygu am awr bob pythefnos dros 44 wythnos neu'r hyn sy'n cyfateb i hynny, fel y bo'n briodol, drwy gydol 3 blynedd o astudio'n amser llawn: awr y mis i'r rhai rhan-amser. Dylent hefyd roi ystyriaeth i'r ffaith y gall y cyfnod olaf o ysgrifennu osod pwysau mawr iawn ar arolygwyr.

### 5.9 CYFRIFOLDEBAU'R MYFYRWYR YMCHWIL

Mae cyfrifoldebau'r myfyrwyr ymchwil yn cynnwys, yn bennaf:

(a) Cymryd cyfrifoldeb am eu datblygiad personol a phroffesiynol eu hunain;

(b) Derbyn cyfrifoldeb am eu hymchwil eu hunain yn y pen draw ac, yn arbennig, am gyfeiriad y prosiect ymchwil fel y mae'n datblygu a'r agweddau arno sy'n torri tir newydd, a chadw cysylltiad rheolaidd â'u harolygwr yn unol ag amserlen y cytunwyd arni;

(c) Sicrhau bod cynnydd boddhaol yn cael ei wneud o ran y rhaglen waith a'r amserlen y cytunwyd arni â'r arolygwr, gan gynnwys cyflwyno drafftiau ysgrifenedig o fewn cyfnodau y cytunwyd arnynt a pharatoi yn ddigonol ar gyfer cyfarfodydd gyda'r arolygwyr;

(ch) Sicrhau eu bod yn dweud wrth yr arolygwr am unrhyw broblemau sy'n ymwneud â'r ymchwil, ac yn rhoi eglurhad boddhaol am unrhyw fethiant i fod yn bresennol mewn cyfarfodydd neu i gwrdd ag ymrwymiadau eraill, fel y gellir cynnig arweiniad priodol;

(d) Darparu adroddiadau cynnydd rheolaidd ar yr ymchwil, fel y myn yr arolygwr neu reolau'r Adran neu'r Gyfadran. Ar ben hynny, paratoi adroddiad cynnydd ffurfiol, byr bob blwyddyn ar gyfer Deon Cyswllt –Ymchwil y Gyfadran i'w drosglwyddo wedyn i Bwyllgor Monitro Myfyrwyr Ymchwil y Gyfadran;

(dd) Datblygu, drwy drafod â'r arolygwr, amserlen ar gyfer gwneud cynnydd a chyflwyno'r traethawd ymchwil mewn modd amserol;

(e) Penderfynu, trwy drafod â'r arolygwr ac yn unol â'r amserlen y cytunwyd arni, pryd i gyflwyno'r traethawd ymchwil;

(f) Sicrhau eu bod yn cyflwyno'r traethawd ymchwil o fewn y terfyn amser hwyaf a nodir yn Nhabl 1 (tudalen 13), a bod cysylltiad yn cael ei gadw â'r arolygwr yn ystod y cyfnod ysgrifennu;

(ff) Cadw cofnodion clir, cywir, manwl a hawdd mynd atynt o'r gwaith a gyflawnwyd, beth bynnag fo maes yr ymchwil, a chadw cofnod llawn o'r sesiynau arolygu (yr arolygwyr i gytuno ar hyn) a chofnod o'u cynnydd; nodi eu hanghenion hyfforddiant a datblygu eu hunain, hysbysu'r arolygwr yn eu cylch, a sicrhau eu bod yn bodloni gofynion y Brifysgol o ran datblygiad sgiliau a hyfforddiant, a gwneud defnydd priodol o gyfleusterau dysgu neu addysgu sydd ar gael gan y Brifysgol, a chwblhau unrhyw raglen hyfforddiant sy'n ofynnol neu'n cael ei threfnu gan neu drwy'r Brifysgol neu drydydd person;

(g) Dweud wrth eraill o fewn y gymuned academaidd am ddarganfyddiadau'r gwaith ymchwil, fel y bo'n briodol, a hynny ar bapur ac ar lafar;

(ng) Derbyn cyfrifoldeb yn y pen draw am eu hymgeisyddiaeth eu hunain, a sicrhau eu bod yn hysbysu'r arolygwr, y Gyfadran berthnasol a'r Gofrestrfa Academaidd yn ddi-oed ynghylch unrhyw amgylchiadau a allai olygu bod yn rhaid newid y dull astudio neu estyn, ohirio neu dynnu'r

cofrestriad yn ôl;

(h) Sicrhau eu bod yn gyfarwydd â rheoliadau a pholisïau'r brifysgol sy'n cael effaith arnynt hwy, neu'r rheini o eiddo unrhyw bartïon eraill, gan gynnwys rheoliadau sy'n ymwneud â'u cymhwyster, iechyd a diogelwch, eiddo deallusol, ymddygiad annheg a chanllawiau ar ymchwil foesegol;

(l) Gweithredu'n gyffredinol fel aelod cyfrifol o gymuned academaidd y Brifysgol.

**5.10 MYFYRWYR RHYNGWLADOL Â FISAS MYFYRWYR (HAEN 4 YN FLAENOROL)**

Mae'r Swyddfa Gartref yn gosod gofynion caeth ar Brifysgolion i warantu bod myfyrwyr ar fisas yn cymryd rhan lawn mewn astudiaethau cyfreithlon ac yn byw yn Aberystwyth. Mae hyn yn golygu ei bod hi'n rhaid i arolygwyr gofnodi presenoldeb ac ymgysylltiad myfyrwyr o'r fath mewn cyfarfodydd goruchwylio bob mis. Bydd Swyddfa Cydymffurfiaeth y Brifysgol yn rhoi gwybodaeth i arolygwyr am fyfyrwyr ac yn cadarnhau'r broses. Gall peidio â darparu cadarnhad bob mis o ymgysylltiad mewn modd amserol beryglu fisa'r myfyriwr.

Mae gan y Swyddfa Cydymffurfiaeth gyfrifoldeb i sicrhau bod rheolau UKVI yn cael eu cadw oherwydd gallai torri'r rheolau olygu bod y Brifysgol yn colli ei thrwydded noddwr ac felly'n colli'r gallu i gyflogi ac addysgu staff/myfyrwyr nad ydynt yn dod o'r DU/Iwerddon.

# 6.0 HYFFORDDI AROLYGWYR, AC ARWEINIAD I ARHOLWYR

### 6.1 HYFFORDDI AROLYGWYR

Polisi'r Brifysgol hon yw bod pob arolygwr ymchwil yn cael ei hyfforddi'n briodol. Mae dwy ran i'r hyfforddiant i arolygwyr ymchwil, sef A. i staff arolygu newydd, neu staff nad ydynt wedi arolygu myfyriwr ymchwil ers pum mlynedd neu fwy a B. i bob arolygwr (i gyfnewid arferion da a chael y wybodaeth ddiweddaraf am ofynion y Brifysgol hon, UKRI a'r QAA). Gweler https://stafftraining.bis.aber.ac.uk/sd/list_courses.php i weld pa weithdai sydd yn cael eu cynnig.

A Pan fo'r prif arolygwr ar absenoldeb ymchwil, bydd disgwyl iddynt barhau i weithredu fel arolygwr. Efallai y bydd yr ail arolygwr neu unigolyn arall yn cymryd rhai o gyfrifoldebau'r prif arolygwr gan gynnwys y cyfarfodydd rheolaidd, cwblhau monitro a ffurflenni eraill, a darparu gofal bugeiliol. Gan gydnabod efallai nad oes gan yr ail arolygwr wybodaeth mor fanwl am y pwnc, bydd y prif arolygwr hefyd fel rheol yn darllen a rhoi sylwadau ar ddrafftiau o waith a gyflwynir pan fydd ar absenoldeb ymchwil. Cydnabyddir fodd bynnag y gall natur yr absenoldeb ymchwil ei gwneud yn anymarferol i'r prif arolygwr ddychwelyd y gwaith o fewn y cyfnod arferol o dair wythnos. Mae'n bosibl y bydd modd i'r ail arolygwr ddarparu adborth yn gynt.

B Pan fo'r prif arolygwr a'r ail arolygwr ar absenoldeb ar yr un pryd, dylai'r Adran wneud trefniadau i sicrhau bod y myfyrwyr yn cael eu goruchwylio'n ddigonol. Gallai hyn olygu 3ydd cydweithiwr sydd â phrofiad perthnasol, neu drefniadau lle mae'r prif arolygwr a'r ail arolygwr yn cadw cyswllt goruchwylio rheolaidd. Dylid trafod hyn â'r myfyriwr. Dylai'r trefniadau hyn gael cymeradwyaeth Pennaeth Ysgol y Graddedigion cyn i'r ddau aelod o staff gychwyn ar eu habsenoldeb ymchwil. Os bydd myfyriwr yn llunio drafft terfynol o'u gwaith cyn cyflwyno, bydd y prif arolygwr yn darllen a rhoi sylwadau ar y drafft ym mhob achos ac eithrio amgylchiadau eithriadol.

Mae'r Brifysgol hon yn annog arolygwyr sy'n gweithio mewn cyrff eraill, ym myd diwydiant neu mewn practis proffesiynol i gymryd rhan, lle bo'n briodol, yn yr hyfforddiant arolygu a gynigir gan y Brifysgol. Gofynnir i'r Cyfadrannau roi enwau'r arolygwyr hynny i Ysgol y Graddedigion.

Mae cyfres o weithdai mwy cynhwysfawr yn cael eu cyflwyno yn unol â chyfarwyddyd Cyngor y DU dros Addysg i Raddedigion, a all arwain at achrediad, ac anogir yr arolygwyr i gymryd rhan.

### 6.2 ARHOLI

Caiff yr arholwyr eu henwebu gan yr Adrannau a'u cymeradwyo gan banel a gadeirir gan Bennaeth Ysgol y Graddedigion. Bydd y Panel yn sicrhau bod gan yr arholwyr allanol y ffocws disgyblaethol priodol a'r profiad priodol o arholi/arolygu myfyrwyr ymchwil.

Bydd Ysgol y Graddedigion yn anfon y dogfennau hyn at y ddau arholwr:

- Copi o Reoliadau perthnasol y Brifysgol
- Y nodiadau i Arholwyr Allanol a Mewnol ac i Gynllunwyr a Chadeiryddion Byrddau Arholi

Hefyd, caiff yr arholwr allanol gopi o'r:

- Adran berthnasol o Lawlyfr Ansawdd Academaidd y Brifysgol i Arholwyr Allanol

# 7.0 MONITRO CYNNYDD AC ASESU'N FFURFIOL

### 7.1 Y GOFYNION CYFFREDINOL WRTH FONITRO CYNNYDD

Yn Adran 4, fe amlinellwyd polisi'r Brifysgol ar arolygu, gan gynnwys rôl yr arolygwr wrth fonitro cynnydd, amlder y cyfarfodydd/cysylltiad â'r arolygwr ac isafswm y disgwyliadau o ran cadw cofnodion.

Pwrpas monitro cynnydd (a, phan fo hynny wedi'i nodi, asesu darnau o waith ysgrifenedig) yw sicrhau bod yr

ymchwil yn cael ei gwneud yn unol â'r amserlen y cytunwyd arni, a rhoi adborth i'r myfyriwr ar y meysydd y gellir eu gwella.

### 7.2 GOFYNION YR AROLYGWR

Bydd y myfyriwr a'r arolygwyr yn cwblhau ac yn llofnodi'r Adroddiad Monitro Blynyddol (gweler uchod), a bydd gofyn hefyd i Bennaeth yr Adran ei lofnodi er mwyn gallu argymell, ar sail gwybodaeth, a gaiff y myfyriwr barhau â'u hastudiaethau. Fe seilir argymhelliad yr arolygwr ar feini prawf yr adran ynghylch symud ymlaen, a chaiff ei wneud yng ngoleuni'r cyfarfodydd/trafodaethau rheolaidd sydd wedi'u cynnal rhwng y myfyriwr a'r arolygwr.

Er hynny, nid yw argymhelliad yr arolygwr yn benderfyniad terfynol, caiff yr argymhelliad ei anfon ymlaen i Bwyllgor Monitro Ymchwil y Gyfadran, a bydd hwnnw, yn ei dro, yn adrodd i Bwyllgor Monitro Myfyrwyr Ymchwil Ysgol y Graddedigion.

### 7.3 GOFYNION Y CYFADRANNAU

Bydd gan y Cyfadrannau bwyllgor ymchwil/uwchraddedig sydd â'i gylch gorchwyl yn cynnwys ystyried materion myfyrwyr. Gellir dirprwyo i is-bwyllgor adrannol y gwaith o argymell a gaiff myfyrwyr symud ymlaen, neu fe ellir ei ystyried yn rhan o agenda gaeedig lle na chaiff cynrychiolwyr y myfyrwyr ar y pwyllgor ymchwil fod yn bresennol. Rhaid i'r corff sy'n adolygu argymhellion yr arolygwyr wneud hyn:

- Dyfeisio dulliau priodol o wirio bod cynnydd boddhaol yn cael ei wneud, gan gynnwys cyfweliadau, cyflwyniadau a sesiynau poster
- Adolygu goblygiadau moesegol prosiectau ymchwil y myfyrwyr;
- Sicrhau bod y meini prawf o ran symud ymlaen wedi'u defnyddio;
- Adolygu argymhelliad yr arolygwr gan chwilio, os yw'n briodol, am dystiolaeth ychwanegol;
- Gwneud argymhelliad terfynol i Bwyllgor Monitro Ymchwil y Gyfadran drwy lenwi'r rhestri o adroddiadau a ddarperir gan y Gofrestrfa Academaidd;
- Gallu cyflwyno tystiolaeth i Bwyllgor Monitro Ymchwil y Gyfadran am bob argymhelliad, yn arbennig os yw'r argymhelliad yn mynegi pryder ynghylch cynnydd y myfyriwr neu'n dweud na ddylid caniatáu i'r myfyriwr barhau â'i (h)astudiaethau.
- Cynorthwyo i adneuo traethodau ymchwil electronig yn Mhorthol Ymchwil Aberystwyth (gweler **https://www.aber.ac.uk/en/media/departmental/informationservices/pdf/theses/dept_workflow_english.pdf**)

Bydd y symud ymlaen yn digwydd o flwyddyn gofrestru i flwyddyn gofrestru, ond nid o flwyddyn gofrestru i gyfnod ysgrifennu.

Caiff cynnydd pob myfyriwr ei fonitro gan Bwyllgor Monitro Ymchwil y Gyfadran bob blwyddyn o leiaf.

### 7.4 HYSBYSU'R MYFYRIWR O'R ARGYMHELLIAD YNGHYLCH CYNNYDD

Bydd y penderfyniadau terfynol ynghylch achosion problematig yn cael eu gwneud ym Mhwyllgor Monitro Myfyrwyr Ymchwil Ysgol y Graddedigion, oni bai fod myfyrwyr wedi ei eithrio; mewn achosion felly, dylai adrannau hysbysu'r myfyrwyr o'r penderfyniad.

7.5 **ISAFSWM AC UCHAFSWM YMGEISYDDIAETHAU** Isafswm ymgeisyddiaeth yw'r cyfnod pryd y mae'n rhaid i'r myfyriwr fod wedi ymrestru'n fyfyriwr sy'n talu'r ffioedd llawn (gweler Tabl 1 isod). Diwedd isafswm yr ymgeisyddiaeth yw'r dyddiad y disgwylir myfyriwr i gyflwyno'i draethawd neu ei thraethawd ymchwil arno. Ar ôl i isafswm yr ymgeisyddiaeth ddod i ben, dylai'r myfyriwr fod yn tynnu at ddiwedd y camau ysgrifennu.

Uchafswm yr ymgeisyddiaeth yw'r dyddiad diwethaf y mae'n rhaid i'r myfyriwr fod wedi cyflwyno'u traethawd ymchwil arno.

| **TABL 1**<br><br>GRADD A DULL ASTUDIO | ISAFSWM Y CYFNOD TALU FFIOEDD / CYFNOD Y COFRESTRIAD | TERFYN AMSER HWYAF / DYDDIADCAU AR GYFER CYFLWYNO'R TRAETHAWD YMCHWIL |
|---|---|---|
| **MPhil**<br>Amser llawn<br>Rhan-amser | 1 flwyddyn<br>2 flynedd | 2 flynedd*<br>4 mlynedd |
| | | |
| **PhD**<br>Amser llawn<br>Rhan-amser * | 3 blynedd<br>2 flynedd | 4 blynedd<br>3 blynedd |
| *(heb gyfnod prawf) | | |
| Rhan-amser<br>Rhan-amser * | 5/6 blynedd<br>3/4 mlynedd | 7/8 mlynedd<br>5/6 blynedd |
| *(heb gyfnod prawf) | | |
| Mae'r terfynau amser yn dibynnu ar y dyddiad cychwyn. Ar gyfer pob myfyriwr sydd wedi dechrau ers mis Medi 2018, mae uchafswm lwfans ychwanegol o ddwy flynedd ar gyfer pob gradd sy'n cynnwys llawer o gyfnodau o dynnu estyniadau yn | | |

ôl. Mae hyn yn rhedeg i'r dyddiad cyflwyno traethawd ymchwil cychwynnol.

### 7.6 NEWIDIADAU MEWN YMGEISYDDIAETH

**Uwchraddio neu israddio**
Un o'r dewisiadau sydd ar gael i arolygwyr yw awgrymu bod y myfyriwr yn trosglwyddo i gynllun arall, er enghraifft, uwchraddio o MPhil i PhD neu israddio o PhD i MPhil. Gellir gwneud hynny adeg llunio'r adroddiad blynyddol.

Sylwch mai dim ond yn ystod ymgeisyddiaeth y radd wreiddiol y gellir trosglwyddo o un cynllun i'r llall.

**Newid y Modd Astudio o Amser Llawn i Ran-amser ac Fel Arall**
Dylai myfyrwyr sy'n dymuno newid eu dull astudio (h.y. newid o amser llawn i ran-amser neu fel arall), lenwi ffurflen Newid Cofrestriad Uwchraddedig, sydd ar gael o'r Gofrestrfa Academaidd neu o https://www.aber.ac.uk/cy/grad-school/forms-handbooks/

Dim ond yn y cyfnod cyn tri mis olaf y cofrestriad, h.y. yn ystod y cyfnod y mae ffioedd dysgu yn daladwy amdano, y gellir newid y dull astudio, ac fel rheol ni chaniateir newid yn ystod blwyddyn derfynol cofrestriad ar gyfer PhD.

**Tynnu'n Ôl**
Os bydd myfyriwr yn dymuno atal ei (h)astudiaethau, bydd angen iddo/iddi ddilyn y broses tynnu'n ôl ar-lein drwy'r Cofnod Myfyriwr.

- Tynnu'n Ôl Dros Dro

Mae tynnu'n ôl dros dro yn fodd i'r myfyriwr atal ei (h)astudiaethau yn y Brifysgol gan gadw'r dewis o ddychwelyd yn y dyfodol. I bob pwrpas, bydd amser yn sefyll yn ei unfan tra bydd y myfyriwr wedi tynnu'n ôl dros dro. Caiff cyfnod y cofrestriad a dyddiad olaf cyflwyno'r traethawd ymchwil (uchafswm yr ymgeisyddiaeth) eu newid yn awtomatig yn unol â hynny. Ni all myfyrwyr sydd wrthi'n ysgrifennu eu traethawd ymchwil (e.e. ym mhedwaredd flwyddyn eu PhD) dynnu'n ôl dros dro.

DS – pan fo gan fyfyriwr noddwr ariannol neu fenthyciad myfyriwr, rhaid ystyried goblygiadau tynnu'n ôl a'u trafod â/rhoi gwybod i'r noddwr.

- Tynnu'n Ôl yn Barhaol

Gan nad yw tynnu'n ôl yn barhaol yn caniatáu i'r myfyriwr ddychwelyd at ei (h)astudiaethau, mae'n hanfodol cadarnhau bod y myfyriwr yn ymwybodol o ganlyniadau hynny a'i fod/a'i bod yn gwbl bendant mai dyna y mae'n dymuno'i wneud.

**Estyniadau**
Gall adrannau ofyn am estyniad i ddyddiad cau graddau uwch os na all myfyrwyr gyflwyno'u traethodau ymchwil i'w harholi o fewn yr amser a ganiateir ar gyfer y rhaglen astudio. Er enghraifft,

cyfnod y cofrestriad i fyfyriwr sy'n gwneud PhD yn amser llawn yw pedair blynedd ar ôl dechrau'r rhaglen. Cewch ragor o fanylion yn Nhabl 1 (uchod).

Gellir caniatáu estyniad am resymau tosturiol, mewn achosion o salwch annisgwyl, trafferthion difrifol yn y cartref, neu ymrwymiadau proffesiynol gormodol, neu mewn achosion o broblemau ymchwil a oedd heb eu rhagweld ac y gellir dangos iddynt fod wedi amharu ar yr ymgeisydd. Rhaid cyflwyno achos llawn a rhesymedig, a'i ategu â thystiolaeth feddygol neu dystiolaeth annibynnol a phriodol arall ynghyd ag amserlen ar gyfer cwblhau. Rhaid cyflwyno datganiad clir sy'n dangos bod yr adran berthnasol wedi pwyso a mesur sefyllfa'r ymgeisydd o ganlyniad i'r

amgylchiadau esgusodol, a bod yr adran o'r farn bod yr estyniad y gofynnir amdano yn un priodol. Ni ddylid gofyn am estyniad os yw'r myfyriwr yn teimlo y gallai gyflwyno traethawd ymchwil o safon uwch pe câi ragor o amser. Dim ond pan na all myfyrwyr, am reswm da, gyflwyno darn cyflawn o waith i'w arholi y dylid gofyn am estyniad.

Mae gofyn i'r adran gyflwyno cais i Ysgol y Graddedigion gan gyplysu wrtho dystiolaeth ddogfennol sy'n dangos pam y gwneir y cais am estyniad. Bydd Pennaeth Ysgol y Graddedigion yn ystyried y cais ac yn cyfleu'r penderfyniad arno i'r adran (y mae'n rhaid iddi hysbysu'r myfyriwr ohono), y Gofrestrfa Academaidd, y Gyfadran berthnasol a'r Pwyllgor Graddau Ymchwil. **Mae'n hanfodol bod y rhain yn cael eu cyflwyno cyn gynted â phosibl ac yn arbennig eu bod yn cael eu cyflwyno cyn dyddiad cau'r myfyriwr. Gall methu â chyflwyno cyn y dyddiad cau olygu bod cais yn cael ei ystyried yn anghymwys.**

Mae'n bosibl y bydd angen i fyfyrwyr sy'n cael eu noddi gan UKRI gael caniatâd am estyniad gan eu CDT neu DPT a/neu gan y Cyngor Ymchwil perthnasol. Fel arfer, gall hyd at 12 mis gael ei gymeradwyo gan PA ond bydd angen cymeradwyaeth y Cyngor Ymchwil ar gyfer estyniadau hwy. Ni fydd UKRI yn caniatáu estyniadau yn seiliedig ar bwysau cyflogaeth gan eu bod yn disgwyl i fyfyrwyr ddod o hyd i gyflogaeth ar ôl cwblhau eu hyfforddiant.

Gall UKRI a noddwyr eraill hefyd osod disgwyliadau megis amod cyllid y bydd myfyrwyr yn ei gwblhau o fewn y cyfnod a gyllidir a allai fod yn fyrrach na 4 blynedd i fyfyrwyr amser llawn. Dylai myfyrwyr yn y sefyllfa hon barchu gofynion y corff cyllido ond fel arfer byddant hefyd yn gallu gofyn am estyniadau os oes angen gan y noddwyr.

## 7.7 CYFLWYNO AC ARHOLI'R TRAETHAWD YMCHWIL

**Cyn i'r Ymgeisydd Gyflwyno'r Traethawd Ymchwil**
**Dylai'r ymgeisydd ebostio grasstaff@aber.ac.uk i gael eu hychwanegu i Ddolen gyflwyno BB**

- Bydd yr ymgeisydd yn llenwi Adran A y ffurflen Bwriad i Gyflwyno – 3 mis cyn cyflwyno ac yn ei hanfon ymlaen i'r adran. Gellir cael hon o'r Gofrestrfa Academaidd https://www.aber.ac.uk/cy/academic-registry/students/pg-issues/research/
- Bydd yr adran yn llenwi gweddill y ffurflen Bwriad i Gyflwyno ac yn ei hanfon ymlaen i Ysgol y Graddedigion dim llai na thri mis cyn i'r traethawd ymchwil gael ei gyflwyno. Mae'n hanfodol bod y Ffurflen Bwriad i Gyflwyno yn dod i law 3 mis cyn cyflwyno'r traethawd gan fod rhaid cyflawni'r gweithdrefnau isod cyn bod modd anfon y traethawd ymchwil i'w arholi.

***i) Anfon copi o'r Ffurflen Bwriad i Gyflwyno at y panel cymeradwyo***

Rhaid i Ysgol y Graddedigion gymeradwyo'r Arholw(y)r Allanol a enwebwyd (gweler 5.2). Yna, bydd modd datrys unrhyw broblem cyn i'r ymgeisydd gyflwyno'r traethawd ymchwil.

***ii) Cysylltu â'r Arholwr Allanol***

Bydd yr adran yn gofyn yn anffurfiol os yw'r arholwr arfaethedig yn fodlon gwneud y gwaith. Byddant hefyd yn gwirio bod ganddynt hawl i weithio yn y DU, pan fo'n berthnasol. Pan fydd panel Ysgol y Graddedigion wedi cymeradwyo'r enwebiad, cysylltir â'r Arholwr Allanol arfaethedig yn ffurfiol a gofynnir iddynt gadarnhau eu bod yn fodlon gweithredu fel Arholwr Allanol a bod ei benodiad/ei phenodiad yn unol â'r rheoliadau. Dyma pryd yr anfonir ato/ati gopi o'r Canllawiau i Arholwyr Allanol ac o Reoliadau a Rheolau'r Brifysgol. Nid yw'n ddigon i'r Arholwr Allanol gytuno'n anffurfiol â'r adran y bydd yn gweithredu fel arholwr.

**Mae'r gweithdrefnau hyn yn hanfodol ac ni ellir eu hochrgamu. Nid anfonir y traethawd ymchwil i'w arholi tan i bob un ohonynt gael ei chyflawni'n foddhaol.**

**Yr Ymgeisydd yn Cyflwyno'r Traethawd Ymchwil drwy ddolen gyflwyno Blackboard**

Bydd yr ymgeisydd yn cyflwyno copi electronig o'r traethawd ymchwil drwy Blackboard **wedi'i gyflwyno yn unol â'r dogfennau cyflwyno**, ynghyd â'r dogfennau penodedig:

- Crynodeb a datganiad gorfodol a ffurflenni datganiad i'w cynnwys o fewn y traethawd ymchwil
- Ffurflen Datganiad traethawd Ymchwil Electronig wedi'i chyflwyno'n annibynnol ar y ddolen gyflwyno yn BB

**Gweinyddiaeth Ysgol y Graddedigion**

**Anfonir y traethawd ymchwil at yr Arholwr Allanol gyda…**

- Ffurflen Adroddiad a Chanlyniad (amgaeir y Nodiadau i Arholwyr Allanol a Mewnol)
- Ffurflen hawlio treuliau

  Rhoddir gwybod trwy ebost i Gydgysylltydd Arholi'r traethawd ymchwil adrannol ac i'r ymgeisydd pryd yr anfonwyd y traethawd i'w arholi.

**Arholi'r Traethawd Ymchwil**

Ni ddylai'r broses arholi, gan gynnwys yr arholiad llafar, gymryd mwy na 12 wythnos ar ôl i'r arholwyr gael y traethawd ymchwil.

**Yr Arholiad Llafar**

Mae hyn yn orfodol i bob myfyriwr DProf, PhD ac MPhil. Rhaid i'r adran drefnu'r arholiad llafar a rhoi gwybod i Ysgol y Graddedigion am y dyddiad er mwyn gallu rhoi y wybodaeth ar gofnod y myfyriwr.

**Adroddiad a Chanlyniad**

Ar ddiwedd y broses arholi, rhaid i'r Bwrdd Arholi benderfynu a ddylid dyfarnu'r cymhwyster i'r ymgeisydd. Bydd penderfyniad y Bwrdd yn derfynol ac ni fydd modd ei newid yn ddiweddarach.

**Os yw'r ymgeisydd yn llwyddiannus**

***Gweithredu gan yr Adran***

- Os yw'r Bwrdd Arholi yn mynnu bod yr ymgeisydd yn gwneud mân newidiadau, rhaid sicrhau y bydd y rhain yn cael eu cwblhau cyn pen 4 wythnos neu 6 mis ar ôl yr arholiad llafar ar gyfer PhD neu 4 wythnos neu 12 wythnos ar ôl yr arholiad llafar ar gyfer MPhil, gan ddibynnu ar argymhelliad y bwrdd arholi. Dylid sicrhau bod copi electronig o fersiwn derfynol y traethawd a'r Datganiad Traethawd Ymchwil Electronig yn cael eu huwchlwytho i'r ddolen gyflwyno yn BB er mwyn i Ysgol y Graddedigion ei anfon at y Gwasanaethau Gwybodaeth i'w adneuo ym Mhorth Ymchwil Aberystwyth. Os cymeradwywyd gwahardd mynediad i'r traethawd rhaid i'r Adran hysbysu'r llyfrgelloedd wrth adneuo ac os oes angen gwaharddiad ar gopi electronig gellir gwneud cais am hyn drwy'r Datganiad Traethawd Ymchwil Electronig.
- Llenwi ffurflen yr Adroddiad a'r Canlyniad a'r ffurflen adroddiad dros dro gan gynnwys pob llofnod.
- Anfon ffurflen yr Adroddiad a'r Canlyniad a'r Ffurflen Adroddiad Dros Dro (wedi'u llofnodi gan yr aelodau o'r bwrdd arholi a'r ymgeisydd pan fo'n berthnasol) i Ysgol y Graddedigion.
- Rhoddir gwybod i'r ymgeisydd am y canlyniad. Dylai'r adran ysgrifennu at y myfyriwr os yw'n 4 wythnos/6 mis PhD neu'n 4 wythnos/12mis MPhil. Mewn achosion o ailgyflwyno'n llwyr, bydd Cofnodion Academaidd yn ysgrifennu at y myfyriwr.
- Copi o'r Adroddiad Cyfun yn cael ei anfon at yr ymgeisydd os gofynnir amdano. Y cadeirydd/adran sy'n anfon hwn

**DS. Dylai'r Adran anfon ffurflen yr Adroddiad a'r Canlyniad a'r ffurflen adroddiad dros dro i Ysgol y Graddedigion cyn gynted â phosibl wedi'r arholi. Ni ddylid aros i bob cywiriad gael ei wneud. B**ydd ffurflen canlyniad dros dro yn cael ei chyflwyno i'r myfyriwr ar ddiwedd yr arholiad llafar.

***Gweithredu gan Ysgol y Graddedigion a'r Gofrestrfa Academaidd***

Ar ôl i'r gwaith papur gyrraedd o'r Adran:

- Gwneir y gwiriad ariannol terfynol gyda'r Swyddfa Gyllid
- **Cywiriadau**
  Dylid gwneud a chyflwyno cywiriadau erbyn y dyddiad a nodwyd ar ôl yr arholiad llafar. Bydd yr ymgeisydd yn cyflwyno cywiriadau i'r adran a fydd wedyn yn eu hanfon at yr arholwr/arholwyr. Unwaith y bydd yr arholwyr/arholwyr yn fodlon â'r cywiriadau, rhaid iddynt lenwi'r ffurflen gadarnhad derfynol a'i hanfon yn ôl i'r adran i'r cydlynydd Uwchraddedigion Ymchwil ei llofnodi. Yna, caiff y ffurflen ei hanfon ymlaen at Ysgol Graddedigion. Bydd Ysgol y Graddedigion yn gwirio bod fersiwn derfynol y traethawd ymchwil wedi'i huwchlwytho cyn anfon y ffurflen derfynol i Gofnodion Academaidd ei chwblhau.

**Os yw'r ymgeisydd yn aflwyddiannus**

***Gweithredu gan yr Adran***

- Rhaid i'r myfyriwr gael sylwadau clir ac ysgrifenedig ar y pwyntiau a oedd, ym marn yr arholwyr, yn cyfiawnhau'r penderfyniad i fynnu bod rhaid ailgyflwyno'r traethawd ymchwil. Y Cadeirydd sy'n gyfrifol am gasglu'r sylwadau a sicrhau eu bod yn cyrraedd yr ymgeisydd. Yna, mae rheidrwydd ar y myfyriwr i sicrhau bod y traethawd ymchwil a ailgyflwynir yn rhoi sylw clir i'r pwyntiau hynny.
- Anfonir ffurflen adroddiad yr Adroddiad a'r Canlyniad a'r adroddiad dros dro (wedi'i llofnodi gan aelodau o'r bwrdd arholi a'r ymgeisydd os yw'n berthnasol) i Ysgol y Graddedigion yn syth ar ôl yr Arholiad Llafar.

***Gweithredu gan y Gofrestrfa Academaidd***

- Hysbysir yr ymgeisydd o'r canlyniad yn ysgrifenedig

**Ailgyflwyno**

***Cyn Ailgyflwyno***

***Mae traethawd a ailgyflwynir yn cael ei drin yn yr un modd â thraethawd a gyflwynwyd am y tro cyntaf felly mae angen dilyn y camau uchod.***

- **Rhaid defnyddio'r un arholwyr** onid oes rheswm dilys dros beidio â gwneud hynny. Os oes rheswm dilys, dylai'r Adran ei nodi mewn ebost ac anfon y llythyr hwnnw gyda'r ffurflen Bwriad i Gyflwyno.
- Bydd Ysgol y Graddedigion yn cysylltu â'r Arholwr Allanol unwaith eto er mwyn iddynt fod yn barod ar gyfer dyfodiad y traethawd ymchwil.

***Yr Ymgeisydd yn Cyflwyno'r Traethawd Ymchwil I'r ddolen gyflwyno yn BB***

***Mae adran benodol ar gyfer traethodau ymchwil a ailgyflwynir***

- Bydd Ysgol y Graddedigion yn anfon y traethodau ymchwil at yr arholwyr ac yn hysbysu'r Cydgysyllydd Arholi, a'r Ymgeisydd fel o'r blaen.

***Ailarholi***

- Dylid cynnal arholiad llafar. Gellir ei hepgor os yw'n amlwg bod yr ymgeisydd wedi pasio neu o dan amgylchiadau eithriadol.
- Ar ôl i'r arholi gael ei gwblhau, bydd yr adran yn anfon ffurflen yr Adroddiad a'r Canlyniad a'r ffurflen adroddiad dros dro i Ysgol y Graddedigion.
- Os bu'r ymgeisydd yn llwyddiannus, bydd y Gofrestrfa Academaidd yn cynnal gwiriadau ariannol, yn casglu'r gwaith papur fel uchod.

### 7.8 Y TRAETHAWD YMCHWIL

Ar ôl i'r broses arholi gael ei chwblhau ac os bu'r ymgeisydd yn llwyddiannus, uwchlwythir fersiwn derfynol y traethawd ymchwil i'r ddolen gyflwyno a glustnodwyd ar gyfer y fersiwn derfynol gyda'r ffurflen datganiad traethawd ymchwil electronig a dylai un copi electronig o fersiwn derfynol y traethawd ymchwil gael ei anfon gan Ysgol y Graddedigion at y Gwasanaethau Gwybodaeth i'w adneuo yng Nghadwrfa Ymchwil Sefydliadol y Brifysgol (Porth Ymchwil Aberystwyth). Cyfrifoldeb y myfyriwr yw sicrhau ei fod/bod wedi cael caniatâd hawlfraint am yr holl ddeunydd perthnasol mewn traethawd ymchwil cyn ei gyflwyno i Gadwrfa Ymchwil Aberystwyth. Dylid anfon pob traethawd ymchwil at y Gwasanaethau Gwybodaeth a fydd yn cymhwyso'r gwaharddiadau gofynnol (dros dro neu barhaol) i'r traethawd ymchwil ei hun gyda dim ond gwybodaeth am awdur, teitl, crynodeb, nawdd ac arolygwr y traethawd ymchwil ar gael oni bai bod amgylchiadau eithriadol yn golygu bod gwaharddiad ar yr wybodaeth hon hefyd. Os oes gennych unrhyw ymholiadau ynglŷn â chyflwyno copi electronig i Gadwrfa Ymchwil Aberystwyth cysylltwch â Gwasanaethau Gwybodaeth.

**DS. Rhaid i nodiadau neu sylwadau ymyl-y-ddalen a wnaed gan yr arholwyr gael eu dileu cyn rhoi'r copi ar adnau yn y llyfrgelloedd neu ei anfon yn ôl at yr ymgeisydd.**

## 8. APELIADAU, CWYNION AC YMDDYGIAD ACADEMAIDD ANNERBYNIOL

### 8.1 APELIADAU

Bydd gan bob ymgeisydd yr hawl i apelio yn erbyn penderfyniad yr arholwyr fel y nodir yn y Weithdrefn Apeliadau Academaidd Ymchwil Uwchraddedig sydd ar gael o'r Gofrestrfa Academaidd https://www.aber.ac.uk/cy/academic-registry/students/pg-issues/research/. Rhaid cyflwyno'r apêl ar bapur i'r Gofrestrfa Academaidd cyn pen ugain diwrnod gwaith ar ôl i'r ymgeisydd gael ei hysbysu'n swyddogol o ganlyniad yr arholiad, a hynny am un neu ragor o'r rhesymau canlynol:

- Diffygion neu afreoleidd-dra yn y ffordd y cynhaliwyd yr arholiad;
- Amgylchiadau personol eithriadol a effeithiodd ar berfformiad yr ymgeisydd ac na allai'r ymgeisydd roi gwybod amdanynt, am resymau da, i'r Bwrdd Arholi cyn iddo gyfarfod;
- Tystiolaeth o ragfarn, gogwydd, neu asesu annigonol gan un neu ragor o'r arholwyr;
- Arolygu annigonol na roddwyd gwybod amdano'n gynharach am resymau eithriadol.

Ni dderbynnir apeliadau sy'n amau barn academaidd yr arholwyr.

### 8.2 CWYNION

Mae gan y Brifysgol drefn gwyno ffurfiol a nodir yn y Weithdrefn Gwyno i Fyfyrwyr sydd wedi'i chyhoeddi ar y we:
**https://www.aber.ac.uk/cy/regulations/complaints/complaints-procedure/**

Os oes gan fyfyrwyr ymchwil gwynion neu achwyniadau am y Brifysgol, dylent fynd â hwy, yn y lle cyntaf, at eu harolygwr. Os na ellir eu datrys ar y lefel honno, dylai myfyrwyr fynd at Gyfarwyddwr Astudiaethau Uwchraddedig eu Hadran/Cyfadran. Os na ddatrysir y sefyllfa ar y lefel honno, neu os nad yw hynny'n ymarferol, gall myfyrwyr fynd â'u hachos at Bennaeth Ysgol y Graddedigion.

Ar ôl dihysbyddu'r holl weithdrefnau mewnol, gall ymgeisydd gyflwyno cwyn i Swyddfa'r Dyfarnwr Annibynnol (yr OIA). Rhaid cyflwyno unrhyw gŵyn o'r fath drwy lenwi ac anfon Ffurflen Gais y Cynllun, ynghyd â'r holl wybodaeth berthnasol, i Swyddfa'r Dyfarnwr Annibynnol cyn pen deuddeg mis ar ôl y dyddiad ar y *Llythyr Cwblhau Gweithdrefnau* oddi wrth y Brifysgol ynghylch cwblhau'r gweithdrefnau mewnol. Gellir cael copi o Ffurflen Gais y Cynllun gan y Gofrestrfa Academaidd neu ei lwytho i lawr o wefan Swyddfa'r Dyfarnwr Annibynnol, sef **www.oiahe.org.uk**

### 8.3 YMDDYGIAD ACADEMAIDD ANNERBYNIOL (Gweler uchod hefyd)

Ymddygiad annerbyniol yw'r weithred o sicrhau mantais na chaniateir mohoni er mwyn sicrhau canlyniad gwell na'r hyn y gallai unigolyn ei sicrhau fel arall. Llên-ladrad yw'r weithred o ddefnyddio gwaith rhywun arall gan fwriadu twyllo. Nid yw unrhyw ymdrech ddeallusol yn gwbl wreiddiol. Bydd hyd yn oed y meddyliau mwyaf gwreiddiol yn dibynnu ar syniadau a darganfyddiadau eu rhagflaenwyr. Yn wir, un o feini prawf bodloni'r safonau angenrheidiol ar gyfer dyfarnu graddau ymchwil yw'r gallu i berthnasu canlyniadau astudiaeth â'r corff cyffredinol o wybodaeth yn y pwnc. Dylai arolygwyr gynnig cyngor ynghylch cynnwys cyfeiriadau priodol, gwneud nodiadau, a'r gweithdrefnau o ran llyfryddiaeth ac enwi dogfennau.

Mae gweithdrefn y Brifysgol ar gyfer ymdrin â chamymddwyn mewn gwaith ymchwil, gan gynnwys ymddygiad academaidd annerbyniol a llên-ladrad, i'w gweld yn https://www.aber.ac.uk/cy/academic-registry/handbook/regulations/uap/

## 9.0 MONITRO ANSAWDD A SAFONAU

### 9.1 STRWYTHURAU SICRHAU ANSAWDD

Dyma'r cyrff sy'n arolygu ymgeisyddiaethau am raddau ymchwil ar hyn o bryd:

**Rôl yr Arolygwr wrth Sicrhau Ansawdd**

Y prif arolygwr sy'n gyfrifol am hwyluso cynhyrchu gwaith o safon gan y myfyriwr ymchwil ac am feithrin ymwybyddiaeth y myfyriwr ymchwil o gyfrifoldeb personol dros ansawdd ei (h)ymchwil.

**Rôl y Gyfadran a'r Adran wrth Sicrhau Ansawdd** Yr arolygwr sy'n gyfrifol am adrodd ar gynnydd i'r pwyllgor adrannol neu gyfadrannol perthnasol, a'r pwyllgor hwnnw sy'n darparu rhywfaint o elfen allanol a sicrwydd safonau yn y maes ac ar draws yr arolygwyr. Caiff pryderon na all yr adran neu'r gyfadran roi sylw iddynt eu cyfeirio i sylw Pwyllgor Monitro Myfyrwyr Ymchwil Ysgol y Graddedigion.

**Pwyllgorau Monitro Ymchwil y Gyfadran**

Y pwyllgorau hyn sy'n gyfrifol am fonitro cynnydd uwchraddedigion ymchwil, ac am gyflwyno adroddiadau i Bwyllgor Monitro Myfyrwyr Ymchwil Ysgol y Graddedigion.

**Pwyllgor Monitro Myfyrwyr Ymchwil Ysgol y Graddedigion**

Mae Pwyllgor Monitro Myfyrwyr Ymchwil Ysgol y Graddedigion yn gwneud penderfyniadau ar gynnydd myfyrwyr ar sail argymhellion Cyfadrannau. Mae'n adrodd i'r Pwyllgor Graddau Ymchwil.

**Bwrdd Astudiaethau Datblygu Ymchwilwyr**

Y bwrdd hwn sy'n gyfrifol am ddatblygu hyfforddiant ymchwil ac ef yw'r bwrdd arholi ar gyfer y modiwlau hyfforddiant ymchwil.

**Y Gofrestrfa Academaidd**

Y Gofrestrfa sy'n darparu mewnbwn i'r pwyllgorau uchod ac yn gweithredu fel storfa i reolau, rheoliadau ac arferion y Brifysgol.

**Y Pwyllgor Graddau Ymchwil**

Y Pwyllgor hwn sy'n goruchwylio gwaith y pwyllgorau uchod, gan fonitro ymgeisyddiaethau am raddau ymchwil o'r cofrestru hyd yr arholi. Bydd yn adrodd i'r Bwrdd Academaidd ar gynnydd academaidd a materion ansawdd.

### 9.2 Y GWEITHGAREDDAU SICRHAU ANSAWDD PENODOL A GYFLAWNIR GAN Y PWYLLGOR GRADDAU YMCHWIL

**Materion Cyffredinol a Nodir gan Arholwyr Allanol** Bydd y Gofrestrfa Academaidd yn adolygu adroddiad yr Arholwr Allanol ar gyfer materion cyffredinol ac yn tynnu sylw'r Pwyllgor Graddau Ymchwil atynt i'w trafod a gweithredu arnynt, os yw hynny'n briodol. Ymdrinnir hefyd â materion penodol sy'n achosi pryder.

**Monitro Cyfraddau Cyflwyno a Chwblhau**

Bydd y Pwyllgor Graddau Ymchwil yn monitro'r cyfraddau hyn ledled y Brifysgol a gall fynnu bod adrannau sy'n syrthio islaw'r meincnodau yn cyflwyno'u cynllun i roi sylw i'r anawsterau. Bydd y Pwyllgor Graddau Ymchwil hefyd yn ystyried a oes unrhyw faterion cyffredinol y bydd angen i'r sefydliad roi sylw iddynt er mwyn gwella'r cyfraddau cyflwyno a chwblhau.

Bob blwyddyn gofynnir i PA gwblhau arolwg cyflwyno drwy Je-S ar gyfer pob myfyriwr sy'n cael ei noddi gan UKRI a gallai'r cyfraddau cwblhau hyn effeithio ar gyllid gan UKRI i'r dyfodol.

**Ystyried Adborth y Myfyrwyr**

Dylai sylwadau'r myfyrwyr gael eu cyflwyno mewn tair prif ffordd:

- Drwy'r arolygwr – pryderon uniongyrchol am yr arolygu a'r cyfleusterau;
- Drwy'r Adran/Cyfadran – oes oes unrhyw broblemau ag arolygu neu faterion eraill nad yw'r myfyriwr yn teimlo y gall eu codi â'r arolygwr.
- Drwy gynrychiolydd y myfyrwyr – i godi materion mwy cyffredinol eu natur gyda'r adran a/neu Grŵp Ymgynghorol y Myfyrwyr Ymchwil.

Cyfrifoldeb yr arolygwr yw tynnu sylw'r adran at y

materion y mae'r myfyriwr wedi'u codi'n uniongyrchol gydag nhw, ac ymateb iddynt, gan roi gwybod i'r myfyriwr am ganlyniadau'r camau y mae'r adran wedi'u cymryd.

Ar lefel fwy cyffredinol, caiff sylwadau'r myfyrwyr hefyd eu cyflwyno mewn amrywiaeth o ffyrdd:

- Drwy roi gwybod am bryderon/cwynion uniongyrchol i'r Adran/y Gofrestrfa Academaidd/Ysgol y Graddedigion
- Drwy gynrychiolwyr y myfyrwyr ar Bwyllgorau Ymgynghorol Myfyrwyr/Staff yr adrannau
- Drwy sylwadau Grŵp Ymgynghorol Myfyrwyr Ymchwil y Brifysgol, sy'n adrodd yn uniongyrchol i'r Pwyllgor Graddau Ymchwil.

**Ystyried Enwebiadau ar gyfer Arholwyr Allanol/Arolygwyr Allanol**

Caiff pob enwebiad ar gyfer arholwr allanol ac arolygwyr ei anfon drwy Ysgol y Graddedigion i Bennaeth Ysgol y Graddedigion. Bydd Pennaeth Ysgol y Graddedigion yn adolygu'r enwebiad i benderfynu a yw'n cydymffurfio â meini prawf penodi y Brifysgol. Bydd Pennaeth Ysgol y Graddedigion hefyd yn ystyried pariad yr arholwyr mewnol ac allanol a chadeirydd i sicrhau bod y bwrdd arholi'n gytbwys ac â'r profiad angenrheidiol. Er enghraifft, os yw'r arholwr allanol yn ymarferydd neu â llai o brofiad nag arfer er mwyn sicrhau ymdriniaeth briodol o bwnc, disgwylir i'r arholwr mewnol fod â phrofiad arholi mwy sylweddol. Gallai Pennaeth Ysgol y Graddedigion ofyn am ragor o wybodaeth am yr arholwyr cyn cymeradwyo.


# Atodiad 1

# Fframwaith Datblygu Ymchwilwyr

Yn 2001 cyhoeddodd y Cynghorau Ymchwil Gyd-Ddatganiad Sgiliau yn disgrifio'r sgiliau y dylai myfyrwyr ymchwil fod yn meddu arnynt neu'n eu datblygu. Mae'r rhain yn cynnwys ystod o sgiliau trosglwyddadwy yn ychwanegol at y sgiliau ymchwil sy'n gysylltiedig â chwblhau traethawd hir. Credir bod datblygiad y sgiliau hyn yn rhan hanfodol o'r profiad o fod yn uwchraddedigion ymchwil. Y mae'r Datganiad Datblygu Ymchwilwyr, a'r Fframwaith 2010 cysylltiedig, yn esblygiad o'r JSS ac yn dangos ystod yr wybodaeth, y sgiliau, yr ymddygiad a'r nodweddion personol sydd eu hangen, ym marn y Cynghorau Ymchwil, i fod yn ymchwilydd ac yn weithiwr effeithiol mewn byd sy'n cael ei yrru gan gynhyrchu gwybodaeth a dyfeisgarwch. Gall y sgiliau hyn fod yn bresennol wrth ddechrau ar radd ymchwil, gallant gael eu dysgu yn benodol, neu eu datblygu yn ystod cwrs yr ymchwil.

Y mae'r Fframwaith Datblygu Ymchwilwyr yn disgrifio'r sgiliau a'r nodweddion sydd gan ymchwilwyr llwyddiannus ac yn eu hannog i anelu am ragoriaeth trwy lefelau uchel o ddatblygiad. Y mae'r fframwaith yn ddull newydd cynhwysfawr o wella gyrfaoedd ymchwilwyr. Cafodd ei ddatblygu gan ymchwilwyr ar gyfer ymchwilwyr, mewn ymgynghoriad â chyflogwyr academaidd ac an-academaidd.

Y mae'r Fframwaith Datblygu Ymchwilwyr yn sail i Raglen Hyfforddi Sgiliau Uwchraddedigion Prifysgol Aberystwyth ac mae'r cyrsiau a gynigir wedi eu grwpio yn ôl y sgiliau a nodir ym Meysydd y Fframwaith Datblygu.



**Atodiad 2**

## Cofnod Arolygu

| | |
|---|---|
| ENW'R MYFYRIWR: | |
| ENW'R AROLYGWR: | |
| DYDDIAD AROLYGU: | |
| ADOLYGU CYNNYDD A CHRYNODEB O'R ADBORTH: | |
| PYNCIAU A DRAFODWYD: | |
| CAMAU Y CYTUNWYD ARNYNT CYN Y CYFARFOD AROLYGU NESAF: | |
| ASESU ANGHENION HYFFORDDIANT YMCHWIL NEU DDATBLYGIAD PERSONOL: | |
| DYDDIAD Y CYFARFOD AROLYGU NESAF: | |
| LLOFNOD Y MYFYRIWR: | DYDDIAD: |

Atodiad 3

**Y Berthynas rhwng Uwchraddedigion Ymchwil a'u Harolygwyr, a Dulliau Newid**
Mae'r berthynas rhwng ymchwilydd uwchraddedig a'i dîm arolygu, yn enwedig y prif arolygydd, yn holl bwysig o ran datblygiad y prosiect a'r ymchwilydd. Mae'r Cod Ymarfer i Uwchraddedigion Ymchwil yn nodi cyfrifoldebau pawb sy'n rhan o'r berthynas hon: https://www.aber.ac.uk/cy/grad-school/forms-handbooks/

Yn y rhan fwyaf o achosion, mae'r berthynas yn un gref, â'r arolygydd yn ogystal â'r myfyriwr yn gweld gwerth ynddi, a byddant yn cadw mewn cyswllt ymhell wedi i'r radd gael ei chwblhau. Mae'n beth arferol eu gweld yn parhau i gydweithio a chyhoeddi, yn ogystal â dod yn gyfeillion. Fan lleiaf, rydym yn disgwyl bod trefniadau arolygu proffesiynol ac effeithiol ar waith i gefnogi'r ymchwilydd trwy gydol eu hastudiaethau.

Wrth bwysleisio gwerth perthynas lwyddiannus, rhaid i ni gydnabod difrifoldeb posibl problemau o ran arolygu. Mae angen i ymchwilwyr uwchraddedig wybod y gallant dynnu sylw'r Brifysgol at y problemau hyn, ac y bydd y Brifysgol yn ceisio canfod atebion sy'n cefnogi'r myfyriwr a'r arolygydd. Dyma rai egwyddorion sy'n berthnasol yma:

1. Cyfrifoldeb y brifysgol yw pennu timau arolygu priodol sy'n rhoi cefnogaeth arolygu barhaus hyd at yr adeg pan fo'r radd wedi'i chwblhau. Mae'n bosibl y bydd angen i'r brifysgol newid arolygwyr yn sgil trosiant staff, llwyth gwaith, absenoldeb salwch, neu amgylchiadau amrywiol eraill. Nid oes gan fyfyrwyr yr hawl i benderfynu pwy fydd yn eu harolygu. Pan fydd myfyriwr yn cael ei ariannu gan noddwr megis partneriaeth hyfforddiant doethurol UKRI sy'n golygu eu bod yn cael eu harolygu ar y cyd rhwng dwy brifysgol, bydd y bartneriaeth hefyd yn cyfrannu at ddewis yr arolygwyr. Fodd bynnag, bydd y brifysgol yn ystyried barn myfyrwyr yn llawn ac yn ceisio sicrhau bod myfyrwyr yn fodlon ar eu harolygwyr.

2. Ni ellir goddef bwlio, aflonyddu nac unrhyw ymddygiad rhywiol amhriodol a bydd y Brifysgol yn cymryd camau ar unwaith os tynnir sylw at yr ymddygiadau hyn. Ni ellir goddef unrhyw fygwth ychwaith a dylid rhoi gwybod am unrhyw fygythiadau gan arolygwyr i ddileu cyllid neu andwyo gyrfa ymchwilydd. Mae polisi Urddas a Pharch y Brifysgol ar gyfer ei myfyrwyr yn disgrifio sut i roi gwybod am bryderon a'r camau y gellir eu cymryd yn erbyn y rhai sy'n torri'r polisi: https://www.aber.ac.uk/en/media/departmental/studentsupport/resources/dignityandrespect/cod-myfyrwyr-ar-urddas-a-pharch.pdf

3. Bydd modd tynnu sylw at rai materion yn uniongyrchol gyda'r arolygydd, ac yna'u trafod a'u datrys. Anogir ymchwilwyr uwchraddedig i wneud hyn os ydynt yn teimlo'n gyfforddus yn gwneud hynny.

4. Mae cyfrifoldeb ar ymchwilwyr uwchraddedig, yn ogystal ag arolygwyr, i wneud i'r berthynas rhyngddynt weithio. Er mai'r arolygwyr sy'n bennaf cyfrifol, mae angen i fyfyrwyr ymddwyn yn unol â'r cyfrifoldebau a nodir yng Nghod Ymarfer y Brifysgol i Uwchraddedigion Ymchwil a'i pholisïau ar urddas a pharch (https://www.aber.ac.uk/en/sscs/student-dignity-respect/). Ni ddylai arolygwyr orfod dioddef ymddygiad afresymol a gallant gyflwyno cwyn neu wneud cais i gael eu rhyddhau o'r arolygaeth os digwydd hynny.

5. Ni ddylai ymchwilwyr uwchraddedig fyth deimlo na allant grybwyll problemau o ran arolygu oherwydd nad ydynt yn credu y byddai arolygydd arall ar gael. Os oes angen, gallwn drefnu arolygaeth allanol.

6. Pa mor gyfeillgar bynnag yw'r berthynas rhwng arolygydd a myfyriwr, rhaid cadw pellter proffesiynol priodol bob amser.

Os yw myfyriwr yn pryderu bod anawsterau yn eu perthynas â'u harolygydd yn effeithio ar eu cynnydd neu eu lles, dylent deimlo y gallant wneud y pethau canlynol:

1. **Trafod** y sefyllfa yn gyfrinachol ac anffurfiol gyda staff yn eu hadran, lle bo modd. Fel arfer, cydlynydd uwchraddedigion ymchwil yr adran fyddai'r pwynt cyswllt cyntaf. Os mai'r person hwnnw yw'r arolygydd y mae'r myfyriwr yn cael anawsterau ag ef, neu os yw'r myfyriwr o'r farn

bod yna wrthdaro buddiannau, neu y byddai'n well ganddo siarad â rhywun arall, y tu allan i'r adran o bosibl, gellid cysylltu â'r unigolion canlynol: aelod arall o'r tîm arolygu; Pennaeth yr Adran; y Deon Cysylltiol sy'n gyfrifol am Ymchwil; Pennaeth Ysgol y Graddedigion neu aelodau uwch eraill o staff yr ysgol; neu'r Gwasanaethau Cymorth i Fyfyrwyr. Yn dilyn y drafodaeth hon, efallai y bydd y myfyriwr yn teimlo eu bod yn gallu parhau heb gymryd camau pellach neu efallai y gallant ddefnyddio rhai o'r awgrymiadau er mwyn ymdopi â'r sefyllfa. Mae'n bosibl y gellid cynnal rhywfaint o gyfryngu er mwyn mynd i'r afael â'r problemau a sicrhau bod pawb yn fodlon.

2. **Gofyn am gael newid arolygydd**: Mae yna lawer o resymau pam y gallai'r myfyriwr ofyn am newid, gan gynnwys y ffaith bod y prosiect wedi esblygu i gyfeiriad sy'n fwy addas i aelod arall o staff. Dylai myfyrwyr gyflwyno ceisiadau i newid y tîm arolygu yn ysgrifenedig (mae e-bost yn ddigonol) a dylent gael ymateb ysgrifenedig. Bydd cydlynydd uwchraddedigion ymchwil yr adran yn ystyried y cais, gan sicrhau mai cynnydd a lles y myfyriwr sydd wrth graidd y broses o wneud penderfyniad, a bydd yn ceisio caniatáu'r cais. Os caiff ei gymeradwyo, dylid ffurfioli'r newid gan ddefnyddio'r cofnod 'MyPGR'. Os nad yw'n cael ei gymeradwyo, dylid rhoi esboniad ysgrifenedig. Ni fydd newidiadau'n bosibl bob amser, ond os yw'n amlwg na all y berthynas â'r arolygydd presennol barhau oherwydd ymddygiad yr arolygydd, rhaid dod o hyd i un newydd. Os yw ymddygiad y myfyriwr neu'r aelod o staff wedi bod yn amhriodol, mae'n bosibl y bydd angen cymryd camau pellach.

3. **Uwchgyfeirio:** Os nad yw'r myfyriwr yn fodlon â phenderfyniad gallant dynnu sylw Pennaeth yr Adran at y mater, a bydd yn cael ei ystyried ymhellach. Os mai'r cydlynydd uwchraddedigion ymchwil yw eu harolygydd, dylai'r myfyriwr fynd at bennaeth yr adran yn y lle cyntaf; yna dylid uwchgyfeirio'r mater at y Deon Cysylltiol ar gyfer Ymchwil yn eu Cyfadran. Gall myfyrwyr hefyd siarad â Phennaeth Ysgol y Graddedigion i gael cyngor. Mae trefn gwyno'r myfyrwyr yn caniatáu i fyfyrwyr wneud cwyn ffurfiol os teimlant nad aethpwyd i'r afael â'r mater mewn ffordd foddhaol:

   https://www.aber.ac.uk/en/academic-registry/handbook/complaints/